



Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Strategaeth Weithredu – Diweddariad (Ionawr 2008)



Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth Rhif: 055/2008
Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2008

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Cynulleidfa	Prifathrawon pob Ysgol a Gynhelir yng Nghymru; Awdurdodau Lleol; Undebau Athrawon ac Undebau eraill; Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys; Pob Sefydliad Addysg Uwch ac Addysg Bellach; Cyrff lleol a cenedlaethol yng Nghymru sy'n ymwneud ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.
Trosolwg	Dogfen wedi'i diweddaru yw hon o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu. Deilliodd y ddogfen wreiddiol o ganlyniadau ymgynghoriad diweddar ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang a bwriedir iddi dynnu sylw at gamau a fydd yn llywio'r agenda dros y cyfnod 3 blynedd 2006-2009.
Camau i'w cymryd	Dim angen gweithredu - Er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen wybodaeth hon at: esdgc@wales.gsi.gov.uk
Copiâu ychwanegol	Gellir cael copiâu ychwanegol yn y cyfeiriad uchod. Gellir cael y ddogfen hon hefyd o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn: http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=cy
Dogfennau cysylltiedig	Dogfen Ymgynghori ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth i Gymru. Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu.

Diolch i rspb-images am ddarparu llun 2 sydd ar y clawr

Cynnwys

Rhagair

Crynodeb - Cynnydd yn 2006-2007 4

1. Cyflwyniad

1.1 Meysydd trafod cyffredin	7
1.2 Camau ar gyfer Newid	10
1.3 Amserlen	10

2. Crynodeb o'r Prif Argymhellion

2.1 O fewn pob sector	11
2.2 O fewn y Sector Ysgolion	12
2.3 O fewn y Sector Ieuenctid	13
2.4 O fewn y Sector Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith	14
2.5 O fewn y Sector Addysg Uwch	14
2.6 O fewn y Sector Addysg Oedolion a Pharhaus	15

3. Sector Ysgolion

Datblygiadau yn 2006-2007	16
3.1 Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth	22
3.2 Addysgu a Dysgu	23
3.3 Rheolaeth Ysgolion	25
3.4 Partneriaethau	27
3.5 Ymchwil a Monitro	28
3.6 Camau Atodol o fewn y Sector Ysgolion	29

4. Sector Ieuenctid

Datblygiadau yn 2006-2007	33
4.1 Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth	36
4.2 Addysgu a Dysgu	37
4.3 Rheolaeth Sefydliadol	38
4.4 Partneriaethau	39
4.5 Ymchwil a Monitro	41
4.6 Camau Atodol o fewn y Sector Ieuenctid	41

5. Sector Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith

Datblygiadau yn 2006-2007	45
5.1 Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth	48
5.2 Addysgu a Dysgu	49
5.3 Rheolaeth Sefydliadol	50
5.4 Partneriaethau	52
5.5 Ymchwil a Monitro	52
5.6 Camau Atodol o fewn y Sector Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith	54

6. Sector Addysg Uwch

Datblygiadau yn 2006-2007	57
6.1 Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth	61
6.2 Addysgu a Dysgu	62
6.3 Rheolaeth Sefydliadol	63
6.4 Partneriaethau	64
6.5 Ymchwil a Monitro	65
6.6 Camau Atodol o fewn y Sector AU	66

7. Sector Addysg Oedolion a Pharhaus

Datblygiadau yn 2006-2007	69
7.1 Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth	71
7.2 Addysgu a Dysgu	71
7.3 Rheolaeth Sefydliadol	72
7.4 Partneriaethau	73
7.5 Ymchwil a Monitro	73
7.6 Camau Atodol o fewn y Sector Addysg Oedolion a Pharhaus	74

8. Rhestr Termiau 77

Rhagair



Mae newid yn yr hinsawdd, tlodi, gwrthdaro a phwysau ar ddefnyddwyr yn rhan o'n byd heddiw. Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasysddiaeth fyd-eang yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o godi ymwybyddiaeth a champau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau ein dewisiadau ffordd o fyw a'n paratoi ar gyfer byw'n gynaliadwy yn yr 21ain ganrif fel dinasysddion fyd-eang.

Ers lansio'r cynllun gweithredu uchelgeisiol hwn, bu ymateb rhagweithiol gan bob sector ar gyfer datblygu'r agenda hon a mwy o weithgarwch o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes polisi â blaenoriaeth hwn.

Rhaid i ni sicrhau bod gweithredoedd a chefnogaeth ymarferol yn mynd law yn llaw â datblygu polisi; y caiff datblygiadau eu dadansoddi er mwyn helpu i lunio camau gweithredu ychwanegol er mwyn i ni gamu ymlaen. Mae angen i ni weithio rhwng sectorau, creu partneriaethau newydd sy'n galluogi addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasysddiaeth fyd-eang i ffynnu a datblygu dulliau o fonitro ein cynnydd. Rhaid i ni ganiatáu amser er mwyn dathlu ein llwyddiant hefyd.

Rwy'n falch bod adran addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymeradwyo'r agenda hon a chryfhau ei gallu i gymryd camau gweithredu. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol newydd, cynllunio strategol mewn addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, cynhwysiant o fewn y cwricwlwm gwaith ieuenctid a hyfforddiant yn y sector addysg i oedolion a pharhaus wedi cynyddu cyffredinrwydd a blaenoriaeth addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasysddiaeth fyd-eang.

Byddaf yn disgwyl i'm hadran weithio ochr yn ochr ag adrannau allweddol eraill yn y flwyddyn i ddod er mwyn i addysg barhau'n brif flaenoriaeth mewn polisiâu newydd a diwygiedig sy'n gysylltiedig ag addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasysddiaeth fyd-eang.

Hoffwn longyfarch pob un ohonoch sydd wedi helpu i ddatblygu'r agenda hon ac edrychaf ymlaen at glywed rhagor yn ystod y flwyddyn i ddod am sut y gallwn gwblhau'r gweithredoedd a restrir yma gyda'ch brwdfrydedd a'n cymorth.

JANE HUTT

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Crynodeb - Cynnydd yn 2006-2007

Cyflawni Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Strategaeth Weithredu.

Ers lansio Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Strategaeth Weithredu, bu llawer o weithgarwch yn canolbwyntio ar yr ymrwymadau a amlygir yn y ddogfen.

Yn ystod 2006-2007 cwblhawyd cyfran gynyddol o'r camau gweithredu. Mae'r penodau am bob sector addysg yn dechrau gydag amlinelliad byr o ba gamau a gymerwyd yn y cyfnod hwn. Mae'r rhain wedi'u hamlygu mewn llwyd. At ddibenion eglurder, mae'r ddogfen ddiwygiedig hon yn ymgorffori system goleuadau traffig hefyd a ddatblygwyd i ddangos y cynnydd a wnaed hyd yma.

	Coch - bod angen mwy o waith er mwyn cyflawni'r ymrwymiad;	
	Ambr/Oren - bod yr ymrwymiad yn parhau; a	
	Gwyrdd yn dynodi bod ymrwymiad wedi'i gyflawni.	

Datblygiadau o safbwynt yr argymhellion i bob sector

Cymorth i banel cynghori ADCDF (Cam gweithredu 2.1.1)

Mae'r panel wedi cael gwasanaethau dau aelod staff dynodedig i gynorthwyo ysgrifenyddiaeth y panel ac i fwrw ymlaen â'r gwaith a oedd yn deillio o gynllun gweithredu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF). Yn ychwanegol at hyn hysbysebwyd swydd hyrwyddwr yn Nhachwedd 2006 ac ar ôl cynnal cyfweiliadau penodwyd Claire Fowler i secondiad tair blynedd i ddechrau ar Ionawr 1af 2007.

Rhaglen Datblygu Sefydliadol (RhDS)

Mae'r Adran addysg wedi bod drwy raglen datblygu sefydliadol. Mae lleoliad yr hyrwyddwr ADCDF a chylch gwaith y panel ADCDF o fewn yr adran addysg wedi'u hail-asesu. Penderfynwyd y bydd ADCDF yn symud i'r uned strategaeth o ganlyniad i'r RhDS. Erys materion o hyd o safbwynt lefel y cymorth gweinyddol a ddyrennir i'r panel a'r hyrwyddwr ADCDF. Bwriedir i'r newidiadau hyn gael eu cwblhau erbyn Chwefror 2008.

Dyraniad Cyllideb amlinell ar gyfer 2007

Dyrannwyd cyfanswm o £224,000 i gynorthwyo gyda chyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu yn ystod y flwyddyn. Yn gryno, dyma nhw:

1. Addysg Bellach: Datblygu 'dealltwriaeth gyffredin' o ADCDF a darparu deunyddiau cymorth.
2. Consortiwm Caffael Addysg Bellach Cymru (CCABC): Cynllun Caffael Cynaliadwy.
3. Gwaith leuenctid Cyfanfyd Polisiâu ADCDF a Chyflawni.
4. Prosiectau dan arweiniad CCAUC
 - a. Dadansoddiad o arferion da
 - b. Datblygu systemau rheoli amgylcheddol
 - c. Hyfforddiant i arweinyddion.
5. HAGA: Datblygu ADCDF yn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.



6. Plannu'r Ddealltwriaeth Gyffredin o ADCDF ar lefel awdurdodau lleol.
7. Datblygu Adnoddau ADCDF ar gyfer darparwyr Dysgu seiliedig ar waith.
8. Sefydlu'r potensial i ddatblygu 'dealltwriaeth gyffredin' yn y sector Addysg Barhaus i Oedolion.

Mae gwybodaeth bellach am unrhyw rai o'r cynlluniau hyn i'w gweld ar www.adcdf-cymru.org.uk

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r camau gweithredu sy'n mynd rhagddynt hyd yma ym mhob sector

	Coch	Ambr	Gwyrdd	% Yn mynd rhagddo neu wedi'i gyflawni
Camau Gweithredu Cyffredinol	1	2	3	83%
Ysgolion - Blaenoriaeth	0	4	2	100%
Ysgolion - eilaidd	16	5	3	33%
Gwaith leuenctid - Blaenoriaeth	1	3	2	83%
Gwaith leuenctid - eilaidd	8	5	4	53%
Addysg bellach - Blaenoriaeth	0	5	1	100%
Addysg bellach - eilaidd	3	5	2	70%
Addysg uwch - Blaenoriaeth	1	4	2	85%
Addysg uwch - eilaidd	6	4	3	54%
ABO - Blaenoriaeth	3	2	1	50%
ABO - eilaidd	8	2	1	27%
CYFANSYMAU	47	41	24	58%

1. Cyflwyniad

Diben y Cynllun Gweithredu hwn yw cyflwyno'r cynigion a gynhwyswyd yn y Strategaeth Addysg ddrafft i Gymru ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ar ffurf weithredol. Mae'r ddogfen hon wedi'i rhannu'n bum pennod, gyda phob un yn trafod sector o fewn Addysg a Dysgu Gydol Oes:

- Ysgolion.
- Ieuenctid.
- Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith.
- Addysg Uwch.
- Addysg Oedolion a Pharhaus.

Ym mhob pennod mae meysydd cyffredin a drafodir gyda golwg ar ganfod camau fydd yn symud ymlaen tuag at y dyfodol a roddwyd i ADCDF.

1.1 Meysydd trafod cyffredin

1.1.1 Ymrwymiad ac arweinyddiaeth

Mae yna arweinwyr ar bob lefel o fewn addysg ac ym mhob sector, ac mae ganddynt rôl holl bwysig i'w chwarae. O benaethiaid i arbenigwyr pwnc ac athrawon; o gyfarwyddwyr addysg i staff ymgynghorol a phrif swyddogion ieuenctid; is-gangellorion, darlithwyr a bwrsariaid - mae ganddynt oll rôl holl bwysig i'w chwarae yn cefnogi'r newid i ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Gallant arwain cynllunio strategol sefydliadau, rheoli rhaglenni cyfalaf mawr ac arwain rhyngweithiad y sefydliadau â budd-ddeiliaid a phartneriaid allanol. Gall arweinwyr godi statws ADCDF o fewn eu sefydliadau neu eu cylch gwaith, gan y gallant greu hinsawdd lle gall ADCDF ffynnu. Mae ganddynt hefyd rôl symbolaidd yn dylanwadu ar safbwyntiau pobl eraill am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Felly mae'n eithriadol o bwysig fod gan yr arweinwyr y sgiliau i wneud penderfyniadau sy'n cydymffurfio â'r agenda hon.

1.1.2 Addysgu a Dysgu

Er mwyn cyflawni ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy mae ar bob myfyriwr angen y sgiliau, y gronfa wybodaeth, y gwerthoedd a'r agweddau angenrheidiol i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar ar gyfer creu cymdeithas gynaliadwy. Eir i'r afael â hyn yn bennaf drwy ddatblygiadau mewn cwricwla, addysgeg a phrofiad. I gyflawni hyn, bydd rhaid cael rhaglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar bob lefel.

1.1.3 Rheolaeth Sefydliadol

Mae'n bwysig fod pob sefydliad addysgol yn dilyn dull sefydliad cyfan o fynd i'r afael ag ADCDF, sy'n sicrhau y cyfunir gweithgarwch dyddiol a chynaliadwyedd hirdymor. Rhaid i'r amrywiol dimau sy'n gweithredu ar bob lefel fod yn ymwybodol o bwysigrwydd a rôl ADCDF o fewn y sefydliad o safbwynt 'materion gwyrdd' a hefyd yng nghyd-destun cyfalaf cymdeithasol ac ymwybyddiaeth fyd-eang.

1.1.4 Partneriaethau

Mae partneriaethau'n sylfaenol i ddarparu ADCDF. Mae ehangder ADCDF ei hun yn sicrhau na all unrhyw un sefydliad unigol rychwantu'n ddigonol y continwwm o addysg amgylcheddol i addysg ddatblygu sy'n llunio ehangder ADCDF na chynnwys yr amrediad o sgiliau, gwerthoedd ac agweddau y mae ADCDF yn eu cwmpasu. Mae addysgeg ADCDF ei hun yn gofyn am bartneriaethau sy'n cydweithio ac yn rhannu ag eraill. Mae angen i ddatblygiadau adeiladu ar y partneriaethau presennol o fewn sectorau cyrff statudol ac anllywodraethol, a'u hegri a'u brwdfrydedd. Mae angen i'r partneriaethau presennol hyn, a phartneriaethau newydd ychwanegol, gael eu meithrin a'u gwella fel eu bod yn gallu gweithio gydag addysgwyr ar draws y sector cyfan i sicrhau bod ADCDF yn cael ei gyflwyno.

1.1.5 Ymchwil a Monitro

Mae yna lawer na wyddom am gyflawni dyfodol cynaliadwy, felly mae angen ymchwil sylfaenol a chymhwysol arnom. Mae angen integreiddio'r wybodaeth berthnasol sydd ar gael ar draws disgyblaethau a'u gosod yng nghyd-destun DC a DF.

1.1.6 Adnoddau

Nid yw'r newidiadau y mae eu hangen yn mynd i ddatblygu heb gyfrannu cryn dipyn o ymdrech, amser, egni ac arian. Mae defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau, yn rhai hen a newydd, yn rhai dynol ac ariannol, yn hanfodol er mwyn cyflawni'r dyfodol a ddymunir. Mae'n debygol iawn na fydd angen mewnbwn ariannol ar gyfer llawer o'r camau gweithredu sy'n cael eu rhagweld, dim ond mewnbwn o fathau eraill (e.e.) newidiadau i weithdrefnau ac arferion yn arbennig lle bo gofyn newid meddylfryd. Fodd bynnag, bydd angen rhywfaint o fewnbwn ariannol os yw newidiadau eraill i gael eu gweithredu'n llawn. Mae angen costio'r adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newidiadau hyn yn ofalus. Byddem yn awgrymu bod y cyfrifoldeb allweddol am hynny'n cael ei roi i'r "Hyrwyddwr ADCDF", y rhagwelir y bydd yn cael ei benodi i yrru'r cynllun gweithredu hwn ymlaen. Byddai'r adnoddau i dalu am y swydd hon yn dod o'r £150,000 sydd ar gael yn flynyddol am y tair blynedd hyd at 2009-10 yn llinell sylfaen y Cynulliad sydd wedi'i neilltuo i ADCDF. O'r adnoddau hyn hefyd, yn enwedig yn 2006-07, rhagwelir mai'r blaenoriaethau allweddol a gâi eu cyllido fyddai datblygu safonau cyffredin priodol ar gyfer ADCDF a datblygu rhaglen gychwynnol o hyfforddiant proffesiynol parhaus, yn enwedig yn y sector addysg bellach.

Yn y blynyddoedd dilynol, ac yn dibynnu ar yr adnoddau a fyddai ar gael, o fewn Llywodraeth y Cynulliad a sectorau unigol, bydd cynllun ariannol treigl yn cael ei ddatblygu gan yr Hyrwyddwr ADCDF a'i drafod a chytuno arno'n flynyddol gyda'r rhanddeiliaid allweddol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd hyn yn dyngedfennol i benderfynu pa mor gyflym y gall y cynigion unigol gael eu rhoi ar waith.

1.2 Camau ar gyfer Newid

Ar gyfer pob cam a restrir ym mhob sector, ceir awgrym o gorff arweiniol cysylltiedig. Nid awgrymir mai dyma'r unig gorff fydd yn ymwneud â chyflawni'r cam, ond yn hytrach mai'r corff hwn fydd yn gyfrifol am yrru'r newid a nodir yn ei flaen.

1.3 Amserlen

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd - 2006 - 09. Dyma'r cynllun gweithredu cyntaf ar gyfer ADCDF yng Nghymru ac mae, felly, yn amlygu'r camau gweithredu a fydd ar hyn o bryd yn creu'r newid mwyaf er mwyn datblygu ADCDF yng Nghymru. Bydd penodi'r Hyrwyddwr ADCDF a fydd yn gyrru'r agenda gyfan yn ei blaen yn allweddol i'w lwyddiant.

I roi ffocws i'r gwaith datblygu, mae'r camau gweithredu wedi cael eu dynodi'n gamau blaenoriaeth neu'n gamau atodol.

1.3.1 Camau blaenoriaeth

Nodwyd y camau gweithredu hyn fel yr elfennau allweddol i sbarduno newid a byddir felly yn gweithredu arnynt fel blaenoriaeth. Fodd bynnag, ni ddylid eu hystyried yn llwyr ar wahân i'r camau atodol.

1.3.2 Camau atodol

Nodwyd y camau gweithredu hyn fel rhai sy'n hanfodol i lwyddiant ADCDF yn y sector hwn a dylent gael eu cyflawni o fewn yr amserlen dair blynedd. Fodd bynnag, bydd amseriad penodol y camau hyn a phryd y cânt eu cwblhau yn amrywio, yn dibynnu ar y gwaith adolygu polisiâu neu ddogfennau sydd wedi ei restru ac a fydd yn digwydd yn naturiol yn ystod y cyfnod hwn, y cyfleoedd sy'n codi'n lleol neu ddatblygiadau o fewn pwyntiau gweithredu eraill y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

2. Crynodeb o'r Prif Argymhellion

Mae llawer iawn o egni a brwdfrydedd ym mhob sector o blaid datblygu ADCDF. Cafodd enghreifftiau o arferion da, arloesi a datblygiadau yn ADCDF eu rhannu drwy'r ymgynghori. Un argymhelliad cyffredinol allweddol felly yw y dylid gwerthuso'r sefyllfa fel y mae hi ym mhob sector, i sefydlu llinell sylfaen y gellir mesur cynnydd yn ei herbyn ac i ledaenu'r arferion da sy'n bodoli. Dylai unrhyw ddatblygiadau ym mhob sector harneisio'r egni a'r brwdfrydedd sy'n bodoli ac adeiladu ar lwyddiannau. Mae llawer o gyrff ac unigolion yn ymdrechu i gyflwyno ADCDF i gynulleidfa ehangach. Mae angen safon gyffredin neu 'nod ansawdd' ar gyfer ADCDF i harneisio'r datblygiadau hyn, darparu sylfaen er mwyn canfod arferion da a meithrin synergedd drwy rannu datblygiadau rhwng sectorau.

Yn y tymor byr, bydd y gweithredu'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, annog a chydabod llwyddiannau, ac ar ddarparu set gydlynol o feini prawf ansawdd a fydd yn ffocws i'r gweithredu. Mae hyn yn cael ei weld fel y ffordd orau ymlaen gan fod llawer o sectorau eisoes yn dechrau edrych yn fanylach ar ADCDF a'r hyn y mae ei angen arnom yw hyfforddiant, darparu adnoddau a phrif ffrydio. Fodd bynnag, cydnabyddir, os nad oes cynnydd digonol yn amlwg yn cael ei wneud neu os na sicrhair cydbwysedd o fewn ADCDF, y bydd yn rhaid ystyried mesurau eraill.

Mae degawd UNESCO i Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (2005 - 2014) yn cynnig fforwm lle gall Cymru rannu'r cynnydd a wnaethpwyd hyd yma, y datblygiadau a roddwyd ar waith a natur unigryw ADCDF yng Nghymru a dysgu oddi wrth eraill. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ddatganiad o fwriad o ran datblygiadau ADCDF yng Nghymru ar ddechrau'r degawd. Mae rhannu gydag eraill a dysgu oddi wrthynt yn rhan weithredol o'r strategaeth.

2.1 O fewn pob sector

2.1.1 Cynyddu cefnogaeth i'r panel ADCDF er mwyn ei alluogi i ddatblygu o fod yn banel adweithiol i fod yn banel rhagweithiol â mwy o ffocws. Bod ag arweinydd dynodedig (hyrwyddwr) ar gyfer ADCDF sy'n gyfrifol am symud y cynllun gweithredu ADCDF ymlaen.



2.1.2 Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi cyfrifoldeb ar Estyn i gynnal arolwg o ADCDF mewn ysgolion, gwaith ieuenctid a dysgu oedolion yn y gymuned.



2.1.3 Datblygu Safonau Cyffredin ar gyfer ADCDF: bydd hyfforddiant, darparu adnoddau a datblygu ADCDF i gyd yn cael eu cysylltu â'r safon genedlaethol hon wedyn.



2.1.4 Yr holl sefydliadau addysg i weithio tuag at sicrhau systemau rheoli amgylcheddol ar gyfer eu prosesau a'u hadeiladau busnes eu hunain, a thrwy hynny gychwyn y broses dull sefydliad cyfan o weithredu mewn perthynas ag ADCDF. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn symud hyn ymlaen ar draws ei holl Adrannau a'i lleoliadau, yn cynnwys cyflwyno achrediad Lefel 5 y Ddraig Werdd.



2.1.5 Sefydlu strategaeth 10 mlynedd sy'n cyplysu gydag Amcanion Datblygu'r Mileniwm a degawd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang UNESCO er mwyn sicrhau bod Cymru fel gwlad yn cyfrannu i'r amcanion hyn.



2.1.6 Dynodi person sydd â chyfrifoldeb am ADCDF o fewn sefydliadau mawr yn y sectorau statudol ac anstatudol. Y bobl hyn fydd y cyfrwng cyfleu gwybodaeth a'r canolbwynt o ran datblygu ADCDF ym mhob sefydliad. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog pob sefydliad sy'n cael ei gwmpasu gan y strategaeth hon i ddynodi hyrwyddwyr arwain.



2.2 O fewn y Sector Ysgolion

2.2.1 Bod pob sefydliad HCA yn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r staff er mwyn i ADCDF gael ei gwreiddio ym mhob cwrs.



2.2.2 Bod yr Awdurdodau Lleol yn gweithio tuag at ddatblygu strategaethau ADCDF lleol sy'n cysylltu â'u cynlluniau strategol ac â chynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru.



2.2.3 Cynhyrchu Safonau Cyffredin ar gyfer ADCDF sy'n amlygu ehangder ADCDF ar draws y sbectrwm amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol a byd-eang a gynrychiolir gan ADCDF. Sicrhau bod y nod ansawdd hwn yn amlygu'r cysylltiadau rhwng ADCDF o fewn yr ysgol a thrwy agweddau fel dysgu y tu allan i'rysgol.



2.2.4 Bod ysgolion yn adolygu'r posibilïadau i newid eu prosesau prynu bwyd, cynyddu bioamrywiaeth ar dir yr ysgol, defnyddio bwyd a diodydd iach a chynaliadwy, sefydlu polisiau masnach deg i ddisgyblion, y staff ac fel sefydliadau; a bod awdurdodau lleol i ystyried cynaliadwyedd wrth ddatblygu polisiau ar gludiant i'r ysgol a llwybrau mwy diogel i'r ysgol.



2.2.5 Sicrhau bod cynllun gweithredu EES¹ i helpu i gyflwyno ADCDF yn cael ei weithredu fel y bwriadwyd.



2.2.6 Bod corff o dystiolaeth sy'n dangos arferion da mewn ADCDF ar gael i bob ysgol a'i phartneriaid.



2.3 O fewn y Sector Ieuenctid

2.3.1 Adolygir y datganiad cwricwlwm gwaith ieuenctid ar gyfer Cymru er mwyn cynnwys cyfeiriadau penodol at ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.



2.3.2 Archwilir Partneriaethau Pobl Ifanc (PPI) er mwyn edrych ar y ddarpariaeth ADCDF yn eu cyfrifoldebau a'u cylch gwaith.



2.3.3 Darperir hyfforddiant mewn ADCDF i gydlynwyr PPI ac ymgorfforir ADCDF yn eu prosesau cynllunio.



2.3.4 Dylai'r safonau cyffredin ar gyfer ADCDF a ddyfeisir ar gyfer ysgolion gael eu haddasu i gynhyrchu fersiwn sy'n ymgorffori canolfannau ieuenctid a gwaith ieuenctid.



2.3.5 Dwyn ynghyd barhad o'r prosiect er mwyn cydlynu gweithgaredd ADCDF o fewn y sector cyrff anllywodraethol sy'n canolbwyntio ar y sector ieuenctid.



2.3.6 Bod arferion da o ran hyfforddiant yn ymwneud ag ADCDF yn cael eu dynodi a'u cyflwyno i gynulleidfa ehangach.



¹ Cynllun gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol i'r DU gyfan (yn cael ei gyllido'n rhannol yng Nghymru gan LICC) yw Galluogi Cymorth Effeithiol (EES). Ei nod yw sefydlu mecanweithiau i helpu i ddarparu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yng Nghymru.

2.4 O fewn y Sector Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith

2.4.1 Cynnal ymgyrch gyfathrebu wedi'i thargedu, yn cynnwys cysyniadau allweddol - beth yw datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; ei rôl a'i bwysigrwydd o fewn y sector.



2.4.2 Cynhelir trafodaethau rhyngasiantaethol er mwyn archwilio sut y gellid ymgorffori ADCDF yn fwy effeithiol yng ngweithgareddau sefydliadau.



2.4.3 Rhoi cefnogaeth i ddarparwyr er mwyn gwella eu dull o weithredu mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, yn unol â'r amcanion a nodir yn adran ymchwil a monitro'r ddogfen hon.



2.4.4 Archwilio anghenion hyfforddi SABau, a gweithio gyda SABau a darparwyr hyfforddiant preifat i ddarparu dadansoddiad o lwybrau i'w datblygu.



2.4.5 Drwy CPABC gofynnir i bob SAB ddatblygu strategaeth caffael cynaliadwy o fewn y sefydliad.



2.4.6 Bod yr arferion gorau o ran datblygu partneriaethau ADCDF yn cael eu rhannu o fewn y sector.



2.5 O fewn y Sector Addysg Uwch

2.5.1 SAU i ddynodi pa gamau y maent yn eu cymryd i ddatblygu ADCDF yn eu sefydliad. Cynhyrchir dadansoddiad o arferion da i'w rhannu'n ôl â SAUau.



2.5.2 SAU i gynnal dadansoddiad eu hunain i ganfod ymhle mae ADCDF yn cael ei dysgu yn eu sefydliad ac ymhle y gallai gael ei hymgorffori ymhellach.



2.5.3 Dylid annog pob sefydliad AU, (drwy enghreifftiau o arferion da) i ddatblygu system rheoli amgylcheddol addas (EMS) a mesurau cyfatebol sy'n cynnwys ei holl weithrediadau, er mwyn lleihau i'r eithaf ei ddefnydd cyffredinol o adnoddau i lefelau cynaliadwy.



2.5.4 Anogir SAUau i ymrwymo i a gweithio gyda Menter Caffael Cynaliadwy Cymru.



2.5.5 Cynhelir archwiliad i ganfod pa gynlluniau trydedd genhadaeth sy'n cynnwys ADCDF ar hyn o bryd.



2.5.6 Archwilir y posibilrwydd o sefydlu neu gryfhau ffynonellau ariannu rhyngddisgyblaethol wedi eu neilltuo ar gyfer ymchwil EDCDF gyda'r cynghorau ymchwil a'r UE.



2.6 O fewn y Sector Addysg Oedolion a Pharhaus

2.6.1 Datblygu arweiniad atodol er mwyn sicrhau bod cydbwysedd rhwng Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, ac er mwyn cefnogi'r gwaith o asesu ADCDF o fewn darpariaeth gwaith Dysgu Cymunedol i Oedolion.



2.6.2 ADCDF i'w chynnwys mewn cwrs TAR Addysg Bellach a thystysgrifau eraill a hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid addysg oedolion.



2.6.3 Cynhyrchu a phrif ffrydio canllawiau arferion da a'u defnyddio fel sylfaen a model i ddarparwyr eraill.



2.6.4 Dylid annog pob sefydliad (drwy enghreifftiau o arferion da) i ddatblygu system rheoli amgylcheddol addas a mesurau cyfatebol sy'n cwmpasu ei holl weithrediadau er mwyn lleihau ei ddefnydd o adnoddau drwyddo daw i lefelau cynaliadwy a lefelau sy'n dangos ymwybyddiaeth fyd-eang.



2.6.5 Annog pob rhwydwaith yn y sector hwn i fynd ag ADCDF at ei holl aelodau.



2.6.6 Diffinio fframwaith ansawdd ar gyfer ADCDF sy'n berthnasol i'r sector hwn.



3. Y Sector Ysgolion

Datblygiadau yn y sector ysgolion

Bu'n flwyddyn weithgar yn y sector ysgolion. Yn sgil llunio cwricwlwm newydd cafwyd cyfleoedd i blannu ADCDF ledled y cwricwlwm gan gynyddu mynychder ac amlygrwydd. Rydym wedi dechrau'r dasg o gynyddu cydgysylltiad a rhan rhanddeiliaid yn natblygiadau ADCDF drwy gyfrwng y fforymau GCE a hefyd gyda chynrychiolwyr ADCDF newydd yr awdurdodau lleol.

Cynrychiolwyr ALLau (Cam gweithredu 2.1.6)

Mae'r Cyfarwyddwyr Addysg ym mhob awdurdod lleol wedi enwebu cynrychiolydd i weithredu fel sianel ar gyfer gwybodaeth am ADCDF yn eu hawdurdod lleol. Yn dilyn cyfarfod gyda rhai o'r cynrychiolwyr yn Ne Cymru mae cyfarfod cenedlaethol llawn wedi'i drefnu ar gyfer 11 Rhagfyr 2007. Bydd yr agenda yn gobeithio rhoi sylw i bontio arweinyddion strategol cenedlaethol gyda'r dulliau gweithredu amrywiol yn y rhanbarthau. Bydd y grŵp hwn yn holl bwysig i sefydlu gwell cysylltiadau rhwng datblygiadau pellach mewn ADCDF ac anghenion athrawon.

Galluogi Cymorth Effeithiol (GCE) (Cam gweithredu 3.4.1)

Mae GCE wedi datblygu ac mae ganddo bellach 10 fforwm ledled Cymru. Mae GCE wedi parhau i sicrhau bod datblygiadau mewn ADCDF yn mynd drwy'r fforymau GCE a bod y fforymau yn cyfrannu at yr adnoddau sy'n datblygu megis y ddogfen dealltwriaeth gyffredin. Mae'r Hyrwyddwr ADCDF yn rhan o'r trafodaethau am gam nesaf GCE (2009 a'r tu hwnt) a bydd y cydweithio agos rhwng y cydgysylltydd GCE a'r Hyrwyddwr ADCDF yn parhau.

Cwricwlwm Cenedlaethol (Cam gweithredu 3.2.3)

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cwricwlwm cenedlaethol yn ystod Ionawr - Mawrth 2007. Anfonodd y panel ADCDF ymateb ffurfiol a llwyddodd hefyd i fod yn gysylltiedig â datblygiadau'r fframwaith ABCh a'i ganllawiau atodol. Mae'r trafodaethau ers hynny wedi galluogi i gysylltiadau gael eu gwneud rhwng dogfen dealltwriaeth gyffredin ADCDF a'r fframwaith ABCh fel y saif ar ôl yr ymgynghoriad.



2 (Footnote to be inserted referring to shaded boxes)

Dealltwriaeth Gyffredin (Cam gweithredu 3.2.1)

O ganlyniad i Adroddiad sylfaenol Estyn am ADCDF (Mawrth 2006) gwnaed gwaith i ganfod ffordd newydd o roi sylw i helpu athrawon i ddeall swm a sylwedd ADCDF. Cafodd 'dealltwriaeth gyffredin' ar gyfer ADCDF ei datblygu a'i threialu gan athrawon a oedd yn newydd i ADCDF ac athrawon a oedd eisoes yn ymwneud ag ADCDF yn eu hysgolion. Fe'i haliniwyd gyda'r cwricwlwm drafft ac mae fersiwn interim (Gorffennaf 2007 - Ion 2008) yn awr yn cael ei defnyddio fel arweiniad i ddatblygu adnoddau, hyfforddiant a datblygiadau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Bydd adborth oddi wrth y fforymau GCE, staff cynghorol yr awdurdodau lleol, amrywiol rwydweithiau ac unigolion yn helpu i addasu'r ddogfen interim hon a phan gyhoeddir y cwricwlwm newydd yn Ionawr 2008 cynhyrchir fersiwn derfynol o'r ddealltwriaeth gyffredin, ynghyd â map cwricwlwm a'r astudiaethau achos arferion da a grybwyllwyd isod.

Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth - canllawiau arferion da (Cam gweithredu 3.4.5)

Gall Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth fod yn ddolen gyswllt hanfodol rhwng yr agweddau damcaniaethol ar ADCDF a realiti'r materion sy'n effeithio ar ein ffyrdd o fyw i'r dyfodol a'r byd naturiol o'n hamgylch. Bwriedir y ddogfen hon, a gyhoeddwyd ac a anfonwyd i'r holl ysgolion yn Hydref 2007, ar gyfer y sefydliadau, yr unigolion a'r athrawon hynny sy'n ceisio annog pobl ifanc i ddysgu am yr amgylchedd naturiol a'r dreftadaeth ddiwylliannol, eu gwerthfawrogi a'u mwynhau. Mae fersiwn y gellir ei lawrlwytho i'w gweld ar www.adcdf-cymru.org.uk. Mae'n cynnig arweiniad ar y cynllunio sy'n ofynnol i drefnu ymweliad diogel, effeithiol a phleserus. Bydd yn cefnogi myfyrwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon i weithio tuag at SAC Safon S3.1.5 sy'n gofyn i hyfforddeion ddangos eu bod yn gallu cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu mewn cyd-destunau y tu allan i'r ysgol a gwneir y cysylltiad rhwng hyn ac ADCDF.

Fframwaith CLILC (Cam gweithredu 3.3.1)

Bu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio gyda'r Fforwm ar gyfer y Dyfodol, Asiantaeth yr Amgylchedd a Gwerth Cymru

i edrych ar sut i gefnogi awdurdodau lleol i sicrhau y cyflwynir datblygu cynaliadwy effeithiol yn gynyddol ar draws yr holl feysydd cyflawni. Bu is-grŵp o'r panel ADCDF yn gweithio gyda CLILC i ddatblygu fframwaith sy'n canolbwyntio ar gyfrifoldebau ALLau a'r posibiliadau o fewn ADCDF. Mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar amlygu cyfleoedd i gynyddu ADCDF fel rhan o swyddogaethau ALLau ac mae'n defnyddio arferion da o Gymru, y DU a'r tu hwnt. Bydd cydlynwyr ALLau yn defnyddio'r fframweithiau hyn yn eu gwaith i geisio plannu ADCDF ar lefel awdurdodau lleol ac i sicrhau newidiadau o safbwynt caffael bwyd, materion yn ymwneud â masnach deg, cynyddu bioamrywiaeth ac annog ysgolion i ddatblygu dysgu y tu allan i'r dosbarth. Mae copi o'r fframwaith i'w weld yn www.adcdf-cymru.org.uk neu ar wefan CLILC www.wlga.gov.uk

Cydlynnydd Awdurdod Lleol Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cam gweithredu 3.1.2)

Er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith ar lefel awdurdodau lleol, penodwyd cydlynnydd ar secondiad deuddeg mis, un yn canolbwyntio ar Strategaeth ac leuenctid.

Arferion Da (Cam gweithredu 3.5.1)

Casglwyd ynghyd esiamplau arferion da o ysgolion yn cyflawni gweithgareddau arddull ADCDF sy'n gysylltiedig â'r themâu allweddol yn y ddogfen dealltwriaeth gyffredin. Bydd y rhain yn ffurfio rhan o adnodd i ysgolion a fydd yn edrych ar ADCDF dan benawdau cynllun gweithredu ADCDF - arweinyddiaeth ac ymrwymiad, addysgu a dysgu, rheoli sefydliadol, partneriaethau ac ymchwil. Bydd yr adnodd hwn ar gael i ysgolion erbyn Mawrth 2008.

HAGA (Cam gweithredu 3.1.1)

Dyfarnwyd tendr i lunio canlyniadau dysgu clir, deunyddiau cymorth ac adnoddau i fyfyrwyr statws athro cymwysedig (SAC) yn ymwneud ag ADCDF. Bydd y prosiect yn darparu hyfforddiant i staff mewn sefydliadau HAGA er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o ADCDF a chynnig yr arferion gorau o safbwynt cyflwyno

i athrawon dan hyfforddiant. Bydd y prosiect yn cyflwyno'r ddealltwriaeth gyffredin o ADCDF i bob coleg HAGA ac yn darparu adnoddau ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. Bydd hwn yn ddilyniant i brosiect peilot UCET Cymru, ac yn datblygu'r cysylltiadau a'r momentwm a grëwyd o fewn y prosiect hwnnw.

Cyflwyno'r Cefndir

Defnyddio ynni, newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth ac effaith tlodi byd-eang - dim ond rhai yw'r rhain o'r llu o faterion ADCDF sy'n gynhwysion hanfodol i genhedlaeth dysgwyr heddiw. Mae dysgwyr yn elfen brif ffrwd drwy amryw o bolisiau a gweithgareddau llywodraethu Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhaid i addysg o ansawdd uchel sicrhau bod yr agweddau hyn yn cael eu dwyn yn fyw, eu bod yn cael eu deall, y gweithredir arnynt a bod gweithredoedd unigolion yn dyst iddynt, tra bydd disgyblion yn yr ysgol a gydol eu bywydau yn y gymuned ehangach.

Ar hyn o bryd nid yw ADCDF yn cael ei darparu'n gyson mewn ysgolion yng Nghymru. Mae enghreifftiau o ragoriaeth a meysydd lle mae ychydig iawn yn digwydd. Mae hyn yn bennaf yn dibynnu ar athrawon unigol brwdfrydig neu benaethiaid â gweledigaeth. Mae un neu ddau awdurdod lleol wedi derbyn yr her ac wedi datblygu menter sir-gyfan megis Ysgolion Gwyrdd yng Ngwynedd a Môn a gwobr Ysgolion Cynaliadwy Sir Benfro. Mae eraill yn defnyddio mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel ysgolion iach a llwybrau diogel i'r ysgol, i roi cychwyn ar y gwaith yn y maes hwn. Mae eraill yn defnyddio gwobrau parod fel Eco Ysgolion neu Ysgolion Coedwig, sy'n rhoi sylw i agweddau o ADCDF.

Mae ADCDF yn cynnwys gwybodaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau. Mae datblygu sgiliau'n cynnwys agweddau fel meddwl yn feirniadol, y gallu i ddadlau'n effeithiol, dangos y gallu i herio anghyfiawnder ac anghydraddoldeb, a chydweithio. Mae'n hanfodol fod agweddau addysg ddatblygu, fel gwerthoedd, agweddau, addysgeg a dulliau rhyngweithio rhwng yr ysgol, y plentyn a'r gymuned, yn cael cymaint o sylw ag agweddau addysg amgylcheddol o fewn ADCDF. Bydd hyn yn help i sicrhau bod yr ymarfer ysgol gyfan yn adlewyrchu ehangder gwirioneddol ADCDF.

Mae ADCDF yn mynd ymhellach na gweithredoedd unigol fel ailgylchu, cynllun rhyngwladol ffrind drwy'r post neu siop byrbrydau iach. Ond mae'r rhain i gyd yn elfennau o ADCDF. Mae tystiolaeth bresennol yn awgrymu bod y rhan fwyaf o ysgolion sy'n cychwyn ar ADCDF yn delio ag elfennau 'gwyrdd' ac yna'n cael trafferth ehangu eu gwaith a rhoi sylw i holl ystod ADCDF. Yr hyn sydd ei angen yw fframwaith clir sy'n dangos ymagwedd ysgol-gyfan tuag at ADCDF, 'map' sy'n dangos cynlluniau a gwobrau presennol sy'n cefnogi'r weledigaeth hon a dull i gydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth mewn ADCDF.

Byddai'r meini prawf hyn hefyd yn help i'r lluo o gyrff anlywodraethol sy'n cynnig cymorth a hyfforddiant ym maes ADCDF. Byddai eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n gynwysedig o fewn ADCDF yn help i ysgolion dargedu sefydliadau a all gynnig cymorth ac adnoddau. Gallai cyrff anlywodraethol fapio eu gwasanaethau yn erbyn y meini prawf. Wedyn byddai modd canfod y meysydd lleiaf datblygedig a thargedu adnoddau'n effeithiol i ddarparu cymorth ychwanegol.

Mae'r diwygio ar y cwricwlwm sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cynnig cyfle gwych i gynyddu rôl a pherthnasedd ADCDF yn y cwricwlwm. Mae'n hanfodol fod ADCDF yn cael ei hystyried gan bob gweithgor yn ystod y broses newid.

Mae'r Cwricwlwm yng Nghymru yn cael ei adolygu gyda'r nod o sefydlu cwricwlwm i'r 21ain ganrif sy'n diwallu anghenion dysgwyr unigol ond, ar yr un pryd, yn rhoi sylw i anghenion ehangach Cymru. O fis Medi 2009 bydd Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig yn cael ei gyflwyno yng Nghymru yng Nghyfnod Allweddol 4, a bydd yn cael ei weithredu yn y Cyfnodau Allweddol cynharach o fis Medi 2008.

Fel rhan o'r adolygiad o'r cwricwlwm ysgol bydd y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn cael ei adolygu i adlewyrchu polisiau'r Cynulliad a themâu trawsbynciol, ac i sicrhau cysylltiadau cliriach ag elfennau eraill o'r cwricwlwm ysgol. Bydd y fframwaith yn cael ei ymestyn hefyd i gynnwys myfyrwyr 16-19 oed. Mae Rhaglenni Astudio a Fframwaith ABCh diwygiedig yn cael eu paratoi, i'w rhoi ar waith o fis Medi 2008.

Mae ADCDF yn cynnig cysyniad trosfwaol i ysgolion er mwyn iddynt allu gweld y dolenni cyswllt a'r cydberthnasau rhwng cynlluniau cydategol Llywodraeth y Cynulliad. Efallai fod ysgolion eisoes yn cymryd rhan mewn cynlluniau fel Ysgolion Iach, Eco-Ysgolion, y Cynllun Gweithredu Bwyd a Ffitrwydd neu raglenni rhyngwladol i ysgolion fel Connecting Classrooms neu'r bartneriaeth Global Schools, ymysg eraill. Mae'r cynllun gweithredu hwn i ADCDF yn cynnig gweledigaeth gyfannol iddynt o sut i gwmpasu holl agweddau datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, sy'n mynd ymhellach nag unrhyw gynllun unigol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Nod y cynllun gweithredu hwn yn adeiladu ar waith hynod lwyddiannus y dyfarniadau a'r cynlluniau presennol hyn a chynnig mecanwaith i ysgolion i weithio'n effeithiol tuag at agweddau ehangach ADCDF o nifer o fannau cychwyn.

Bydd y safonau cyffredin y cyfeirir atynt drwy'r ddogfen hon ar ei hyd yn nodi'n glir ar gyfer athrawon sut y mae cynlluniau a dyfarniadau presennol yn asio ag ADCDF ac yn annog ysgolion i ddatblygu agweddau o fewn ADCDF nad ydynt yn cael sylw digonol yn yr ysgolion ar hyn o bryd, fel y rheini sy'n ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang.

Yn ganolog i'r gweithgarwch sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd mae'r fenter Eco-Ysgolion sy'n cael effaith mewn dros 750 o ysgolion yng Nghymru. Mae eisoes yn cyflwyno llawer o agweddau o'r agenda datblygu cynaliadwy ac, yn amlwg, bydd ganddi rôl allweddol i'w chwarae yn gwreiddio'r egwyddorion ehangach hyn yn ethos yr ysgol.

Menter arall bwysig yw Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru sydd erbyn hyn yn cynnwys rhyw 1,200 o ysgolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi dweud ei bod am i 75 y cant o'r ysgolion a gynhelir fod yn cymryd rhan erbyn mis Mawrth 2008, gyda phob ysgol yn rhan o'r fenter erbyn mis Mawrth 2010. Mae'r ysgolion hyn eisoes yn edrych mewn modd holistaidd ar faterion yn ymwneud ag iechyd, dinasyddiaeth, cynaliadwyedd a'r amgylchedd a byddant yn gallu gweithredu fel esiamplau wrth i'r agenda ADCDF ehangach hon gael ei gweithredu'n gynyddol.

Yn pontio dros hyn i gyd mae'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Ffitrwydd sy'n pennu cyfnod o 5 mlynedd i hyrwyddo bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Daw hyn â chyfres o gamau gweithredu ynghyd. Mae rhai ohonynt

yn effeithio'n uniongyrchol ar ddinasyddiaeth a bydd angen cydberthyniad agos rhwng y gwaith o'u cyflwyno ac amcanion y Cynllun hwn, yn enwedig yn y sector ysgolion

3.1 Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth

Yr hyn sydd ei angen yw arweiniad clir a chyson ynglŷn â chwmpas a blaenoriaeth ADCDF o fewn ysgolion. Byddai hyn yn cael ei ategu gan hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar gyfer ADCDF i benaethiaid, athrawon, staff ategol a rhieni.

Mae ADCDF wedi cael mwy o amlygrwydd yn ddiweddar yn y safonau SAC diwygiedig a deunyddiau cysylltiol. Mae Safon S.3.3.15 yn ymdrin â datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ac mae'n gofyn i bob athro "achub ar gyfleoedd priodol i hyrwyddo ADCDF ym mhob agwedd berthnasol o'i addysgu". Bydd gofynion tebyg sydd wedi'u cynnwys yn y Cymhwyster Hyfforddi ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) ac mewn cynlluniau a chymwysterau sydd wedi'u hanelu at bob haen o addysg yn sicrhau bod ADCDF yn cael ei hymgorffori ym mhob agwedd o arweinyddiaeth mewn ysgolion o'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r arweinwyr pwnc hyd at yr athrawon. Ynghyd â hyfforddiant a chymorth ar lefel yr awdurdod lleol, bydd hyn yn galluogi ADCDF i gael ei hintegreiddio'n fwy helaeth i'r cwricwlwm a bywyd yr ysgol. Yn y tymor byr efallai mai cyrsiau unigol a geir i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl ond, yn y tymor hwy, dylai hyn gael ei wreiddio ym mhob cwrs hyfforddi i sicrhau gweithredu integredig.

Mesur arall sy'n cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn cynyddu arweinyddiaeth ac ymrwymiad yw cael 'hyrwyddwyr' dynodedig ar gyfer ADCDF o fewn sefydliad neu sefydlu timau sy'n canolbwyntio ar ADCDF, fel y grŵp penaethiaid a'r grŵp disglair yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ill dau'n canolbwyntio ar ADCDF. Mae'r hyrwyddwyr hyn yn gweithredu fel cyfrwng i sicrhau bod gwybodaeth am ADCDF yn cael ei throsglwyddo'n effeithio drwy sefydliad neu'n cael ei rhannu rhwng grŵp ehangach sy'n gweithio tuag at amcanion tebyg i'w gilydd. Gallant hefyd ffurfio dolenni cyswllt hanfodol rhwng sefydliadau, grwpiau a phartïon allanol. Dylai pob awdurdod lleol weithio tuag at ddatblygu strategaethau ADCDF lleol sy'n cydgysylltu â chynllun gweithredu ADCDF Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ddarparu'r ddolen gyswllt rhwng fframweithiau lleol a chenedlaethol.

Dylid cryfhau'r dolenni cyswllt y tu hwnt i faes addysg gyda chynlluniau datblygu cynaliadwy cysylltiol eraill. Dylai rhaglenni arweinyddiaeth yn ymdrin ag arwain datblygu cynaliadwy, fel yr un sydd ar waith gan Cynnal Cymru, gynnwys negeseuon a chyfeiriadau yn ymwneud â rôl addysg, a dylai arweinwyr o'r sector addysg fynychu'r rhaglenni hyn.

Camau Gweithredu		Pwy	
3.1.1	Pob sefydliad HCA yn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer staff fel bod ADCDF yn cael ei chynnwys ym mhob cwrs.	SAUau	
3.1.2	Yr awdurdodau lleol i weithio tuag at ddatblygu strategaethau ADCDF lleol sy'n cydgysylltu â Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru.	ALLau	

3.2 Addysgu a Dysgu

Mae rhagoriaeth o fewn ADCDF yn dibynnu ar arweinyddiaeth sy'n ysbrydoli yn yr ysgol, addysgu arloesol a hyrwyddo ac ailadrodd arferion ysgol effeithiol. Y canlyniad yw dull integredig o ymdrin â datblygu ADCDF - o gynnwys pynciau, hyd at yr addysgu a'r dysgu ac ethos a rheolaeth ysgol.

Mae'r mecanweithiau a ddynodwyd i ddatblygu'r flaenoriaeth a'r pwysigrwydd a roddir i ADCDF ar draws canlyniadau ADCDF sy'n canolbwyntio ar wybodaeth, sgiliau a gweithredu yn cynnwys:

- diwygio'r cwricwlwm;
- fframwaith ADCDF;
- profiadau ymarferol;
- hyfforddiant a chymorth.

Diwygio'r Cwricwlwm

Yn ystod yr adolygiad cyfredol o Orchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframweithiau ABCh ac Addysg Grefyddol, mae cyfle rhagorol i sicrhau bod ADCDF yn cael ei gwreiddio'n llwyr ledled y cwricwlwm statudol. Dylai Gorchmynion y CC a'r Fframweithiau gael eu diweddarau a dylai'r cynnwys gael ei leihau lle bod gofyn gwneud hynny erbyn 2008 i sicrhau bod addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei hyrwyddo.

Dylai blaenoriaethu a chymorth tebyg i ADCDF gael eu cynnwys mewn prosesau eraill cyfochrog yn ymwneud â datblygiadau cwrwclwm megis y gwaith ar Lwybrau Dysgu 14 - 19, Bagloriaeth Cymru a'r Cyfnod Sylfaen.

Meini prawf ansawdd a safonau ADCDF

I sicrhau cydlynid mewn datblygiadau sy'n gysylltiedig ag ADCDF, mae angen cynhyrchu safonau ADCDF cynhwysfawr sy'n cynnig dealltwriaeth gyffredin o gynnwys a chwmpas ADCDF i bawb sy'n ymwneud â datblygu, cyflwyno a monitro ADCDF. Byddai'r safonau hyn yn bwrw goleuni ar rai o'r materion cynnwys cymhleth yn ymwneud ag ADCDF. Byddent yn amlygu'r nodweddion hynny o ADCDF sy'n hanfodol er mwyn creu cenedlaethau o ddinasyddion byd-eang cynaliadwy, gwybodus a gweithredol yng Nghymru i'r dyfodol. Byddai'r safon genedlaethol hon i ADCDF yn sicrhau bod yr agweddau craidd yn cael eu cynllunio, eu cyflwyno a'u cefnogi drwy hyfforddiant yn y sector statudol, y sector anstatudol a'r sector cyrff anweithredol fel ei gilydd.

Profiadau Ymarferol

Mae amgylcheddau addysgu a dysgu yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflwyno ADCDF ac yn nealltwriaeth y disgybl o faterion ADCDF. Er enghraifft, mae athrawon yn gweithredu fel delfrydau ymddwyn yn y ffordd y maent yn cyfeirio at wledydd, hilion neu grefyddau eraill a gall yr amgylchedd addysgu gynnwys delweddau sy'n adlewyrchu ADCDF yn yr arddangosfeydd. Mae gweithgareddau addysg eraill fel cynnig profiadau personol o'r byd naturiol, ymweliadau preswyl a gweithredu ymarferol yn dod ag ADCDF yn fyw ac yn gwreiddio gwybodaeth, agweddau a sgiliau sy'n hanfodol i ADCDF. Rhaid cynnig cyfleoedd i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth gan eu bod yn cynnig cyfle i'r disgyblion i ymchwilio i faterion cymhleth, datrys problemau a magu profiad o sefyllfaoedd yn y byd fel y mae.

Hyfforddiant a chymorth

Mae llawer o gyrff anllywodraethol, athrawon profiadol a staff cynghori yn gallu cynnig cymorth tuag at agweddau o ADCDF ond clytiog yw'r cymorth hwn ar draws Cymru ac, weithiau, mae'n gallu bod yn anodd cyrchu ato. Mae angen rhwydweithiau ar gyfer ADCDF ac adnoddau cefnogi fel bod y gwaith da sydd ar gael drwy gyrff anllywodraethol a sefydliadau eraill yn gallu cyrraedd y rhai y mae ei angen arnynt. Mae angen i'r cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn fod ar sail dymor hir i sicrhau bod y gweithredu yn ennill ei blwyf a bod modd ei fonitro'n effeithiol.

Mae llawer o adnoddau ar gael i gefnogi agweddau o ADCDF. Ni thybiwyd mai nod barcut i adnoddau ADCDF fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o yrru'r gwaith o gynhyrchu adnoddau. Fodd bynnag, byddai mapio adnoddau yn erbyn meini prawf ansawdd ADCDF yn golygu y byddai modd gwneud dadansoddiad PONTIO o'r adnoddau presennol ac amlygu unrhyw feysydd heb adnoddau digonol y mae angen eu targedu.

Camau Gweithredu		Pwy	
3.2.1	Cynhyrchu safonau cyffredin ar gyfer ADCDF sy'n amlygu ehangder ADCDF ar draws y sbectrwm amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol a byd-eang a gynrychiolir gan ADCDF. Sicrhau bod y safonau cyffredin hyn yn amlygu'r cysylltiadau rhwng ADCDF yn yr ysgol a thrwy agweddau fel dysgu y tu allan i'r ysgol.	IAYCh	

3.3 Rheolaeth Ysgolion

Mae rheolaeth ysgol yn hanfodol er mwyn datblygu a gwreiddio ADCDF. Os yw disgyblion, ar y naill law, yn dysgu am barchu'r amgylchedd, gweld gwerth mewn amrywiaeth a bod yn ymwybodol o oblygiadau byd-eang ac, ar y llaw arall, bod peiriannau byrbrydau sydd heb fod yn iach, tir ysgol llwm ac ychydig o ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill, yna ni fydd ADCDF yn ffynnu.

Mae angen inni roi blaenoriaeth i ADCDF fel ei bod yn ymestyn y tu hwnt i ddatganiad cenhadaeth ysgol a'i bod yn effeithio ar yr addysgu a'r dysgu, y rheolaeth dros yr ysgol a'i thiroedd, gan ddod yn rhan annatod o gylch gwaith cyngor yr ysgol a chreu cysylltiadau effeithiol i'r ysgol â'r gymuned leol a byd-eang.

Mae angen inni adeiladu ar y camau cadarnhaol cyntaf y mae ysgolion yn eu gwneud o fewn ADCDF fel ailgylchu, bod yn ymwybodol o wastraff a'r ffordd y mae dŵr yn cael ei ddefnyddio a datblygu dealltwriaeth ddyfnach a chamau gweithredu. Mae agweddau fel tlodi byd-eang, hawliau a chyfrifoldebau, y defnydd a wneir o ynni a newid yn yr hinsawdd yn agweddau o ADCDF sy'n cael llai o sylw ac mae angen eu datblygu a'u prif ffrydio. Bydd y cam 'dyfnach' hwn o edrych ar holl ehangder elfennau ADCDF yn yr ysgol yn cynnwys yr holl staff dysgu, cefnogi ac ategol ynghyd â rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned leol.

Mae llawer o systemau a dyfarniadau'n bodoli ar hyn o bryd sy'n gallu helpu ysgolion i weithio tuag at ragoriaeth. Fodd bynnag, ar hyn o bryd byddai angen i ysgolion gwblhau sawl dyfarniad cydategol i gael cydnabyddiaeth gyffredinol ym maes ADCDF. Gelwir am safonau cenedlaethol mewn ADCDF y gellid mapio'r systemau dyfarnu hyn yn eu herbyn. Wedyn gallai ysgolion weld pa gynllun sy'n gweddu orau i'w hanghenion ac, ar ôl iddynt eu cwblhau, gallant weld beth arall sydd yna i'w gyflawni.

Pa gynllun neu raglen gyflwyno bynnag a ddewisir, mae'n hanfodol fod plant yn cael llais yn y broses, nid dim ond drwy ddysgu'r cwricwlwm ond drwy gymryd rhan yn y prosesau penderfynu, cyflwyno a gwerthuso.

Camau Gweithredu		Pwy	
3.3.1	Bod ysgolion yn adolygu'r posibilrwydd o newid y drefn caffael bwyd, cynyddu bioamrywiaeth ar dir yr ysgol, defnyddio bwyd a diodydd iach a chynaliadwy, polisiau masnach deg yn eu Cynllun Datblygu Ysgol; a bod awdurdodau lleol yn ystyried cynaliadwyedd mewn polisiau cludiant i'r ysgol ac wrth ddatblygu llwybrau diogel i'r ysgol.	Prifathrawon/ Cyrff llywodraethu/ ALI	

3.4 Partneriaethau

Y partneriaethau a sefydlir o fewn ysgol fydd yn sicrhau llwyddiant ADCDF. Partneriaethau rhwng arbenigwyr pwnc ac uwch aelodau o staff, rhwng ystadau, staff arlwygo a staff addysgu, neu rhwng yr awdurdod lleol, yr ysgol, y gymuned, rhieni a'r plant.

Mae'r ysgol yn aml yn gweithredu fel ffocws i ADCDF. Mae mewn sefyllfa dda i ledaenu dysgu yn ymwneud ag ADCDF i'r gymuned ehangach drwy rieni a pherthnasau a thrwy eraill sy'n defnyddio adeiladau'r ysgol.

Hefyd mae'n allweddol mai'r partneriaethau rhwng sefydliadau lleol, cenedlaethol a byd-eang eraill fydd yn cyfoethogi, cefnogi ac yn gwireddu ADCDF.

Gwelwyd bod rhwydweithiau lleol rhwng yr Awdurdod Addysg Lleol, cyrff anllywodraethol, ysgolion a chymunedau yn ffordd effeithiol iawn o adeiladu ar yr arferion da sy'n bodoli ac o fanteisio ar effaith cyrff anllywodraethol a chyrff cymorth eraill. Mae'r rhwydweithiau lleol hyn yn feini prawf allweddol o lwyddiant - yn aml, mae cyswllt ag 'arbenigwr' unigol mewn ADCDF yn gatalydd i ymgymryd â chynllun neu adnodd a'i ddefnyddio. Lle mae rhwydweithiau'n bodoli, maent wedi arwain at hyrwyddo a chyflwyno lefel lawer uwch o ADCDF mewn ysgolion, gyda'r athrawon yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac yn cael eu grymuso i gyflwyno ADCDF ac i sefydlu camau gweithredu priodol. Mae angen adeiladu ar y mecanweithiau i gefnogi partneriaethau a, lle canfyddir model sydd wedi cael ei brofi, sicrhau ei fod yn cael ei rannu gydag eraill. Mae'r fenter Galluogi Cefnogaeth Effeithiol (EES) eisoes yn sefydlu mecanweithiau fydd yn fodd i ysgolion ac eraill weithio gyda'i gilydd mewn ardal leol. Mae angen ehangu ar y gwaith yma drwy Gymru.

Camau Gweithredu		Pwy	
3.4.1	Sicrhau bod y cynllun gweithredu EES i gefnogi'r gwaith o ddarparu ADCDF yn cael ei weithredu yn ôl y bwriad.	AALI/ IAYCh/EES	

3.5 Ymchwil a Monitro

Mae ADCDF yn gysyniad cymharol newydd i ysgolion, athrawon a'r rhai mewn addysg ffurfiol. Ond gan ei fod wedi deillio o addysg amgylcheddol ac addysg ddatblygu, ymhlith ymarferwyr mae gwybodaeth eisoes am arferion da, dulliau dysgu a phwysigrwydd dulliau addysgu cyfranogol. Cynhaliwyd gwahanol gynlluniau peilot ADCDF mewn sefydliadau amrywiol a lleoliadau unigol ledled Cymru, wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy banel ymgynghorol ADCDF.

Mae Estyn wedi cynnal arolwg llinell sylfaen o gyflwyno ADCDF yng Nghymru yn ystod 2006. Mae'r arolwg hwn yn amlygu meysydd i'w datblygu, meysydd lle mae angen cymorth a meysydd rhagoriaeth. Caiff yr arolwg ei ailadrodd ar ddiwedd y cyfnod cyfredol hwn (2010) a defnyddir y dystiolaeth a geir ohono i amlygu bylchau a'r meysydd y bydd angen eu cryfhau yn y strategaeth ADCDF i'r dyfodol.

Dylai ymchwil yn y dyfodol ganolbwyntio ar fesur y gwelliannau a wnaed gan ysgolion ac asesu effaith addysgu a dysgu ADCDF ar ysgolion a disgyblion. Y canlyniad a ddymunir o ADCDF yw newid yn ein hymddygiad unigol a chyfunol.

Camau Gweithredu		Pwy	
3.5.1	Bod mynediad ar gael i bob ysgol a'i phartneriaid at gorff o dystiolaeth sy'n dangos arferion da mewn ADCDF.	IAYCh	

3.6 Camau Atodol o fewn y Sector Ysgolion

Mae'r camau gweithredu hyn yn hanfodol i lwyddiant ADCDF yn y sector hwn. Maent i gyd yn gamau gweithredu a ddylai gael eu cyflawni o fewn amserlen dair blynedd y cynllun gweithredu hwn. Fodd bynnag, bydd amseriad penodol y camau hyn a phryd y cânt eu cwblhau yn amrywio, yn dibynnu ar y gwaith adolygu polisïau neu ddogfennau sydd wedi ei restru ac a fydd yn digwydd yn naturiol yn ystod y cyfnod hwn, y cyfleoedd sy'n codi'n lleol neu ddatblygiadau o fewn pwyntiau gweithredu eraill y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

Awgrymir corff arwain yn gysylltiedig â'r camau gweithredu a restrwyd. Nid ydym yn awgrymu mai hwn fydd yr unig gorff fydd yn ymwneud â chyflawni'r camau gweithredu, ond mai'r corff hwn fydd yn gyfrifol am yrru'r newid a nodir ymlaen drwy ddenu pob sefydliad, menter ac unigolyn perthnasol i gymryd rhan fel partneriaid.

Camau Gweithredu		Pwy	
3.1	Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth		
3.1.3	Ystyried a oes angen strategaeth ADCDF neu argymell ei chynnwys mewn Cynlluniau Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (yn ofynnol o 2008).	ALI/IRhY	
3.1.4	Sefydlu mecanweithiau cymorth corfforaethol ar lefel yr awdurdod lleol i sicrhau cysylltiadau cydlynol rhwng ymgynghorwyr, swyddogion ac ysgolion i gefnogi ADCDF.	AALI	
3.1.5	Hyrwyddo ADCDF fel blaenoriaeth bennaf i awdurdodau lleol wrth ddatblygu cysylltiadau rhwng cynlluniau corfforaethol a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc.	ADEW	
3.1.6	Codi ymwybyddiaeth llywodraethwyr o berthnasedd ADCDF o fewn eu cyfrifoldebau.	Llywodraethwyr	
3.1.7	Cadw ADCDF fel cam gweithredu y rhoddir blaenoriaeth iddo o fewn y Gronfa Ysgolion Gwell a nodi ffynonellau cyllid eraill y gellir eu defnyddio ar gyfer ADCDF.	IPG	
3.1.8	Ymgorffori ADCDF a rhoi blaenoriaeth iddi yn CPCP a chynlluniau hyfforddi eraill i benaethiaid. (LPSH, PHIP).	IY	

Camau Gweithredu		Pwy	
3.2	Addysgu a Dysgu		
3.2.2	Cynhelir trafodaethau rhyngasiantaethol i ymchwilio i sut y gallai ADCDF gael ei hymgorffori'n fwy effeithiol ym mhob cymhwyster ôl-16.	DGOS/QCA/CCEA/CBAC	
3.2.3	O fewn proses adolygu cwricwlwm 2008, sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ADCDF a'i bod yn cael ei chynnwys lle mae hynny'n briodol yn y Gorchmynion CC a'r Fframweithiau ABCh ac AG. Sicrhau bod sylw'n cael ei roi i ADCDF yn y canllawiau atodol a'r deunyddiau ychwanegol a gynhyrchir yn gefn i gwricwlwm 2008.	C&Q	
3.2.4	Sicrhau bod yr adolygiad addysgeg sy'n cael ei gynhyrchu gan LICC yn cefnogi ac yn rhyngweithio â datblygiadau ym maes ADCDF.	IY	
3.2.5	Bydd cyhoeddiadau cymorth a chanllawiau yn cael eu hadolygu i sicrhau bod ADCDF yn nodwedd drwy ddatblygiad ANG ar ei hyd a'i fod yn annog myfyrwyr i ddatblygu ADCDF yn ystod eu cyfnod sefydlu, DPC a DPP.	IY	
3.2.6	Sicrhau bod ADCDF yn cael ei hamlygu yn y safonau sefydlu i athrawon sydd newydd gymhwyso.	IY	
3.2.7	Sicrhau bod ADCDF yn cael ffocws ac amlygrwydd penodol mewn unrhyw fframwaith datblygiad proffesiynol i athrawon a'r cerrig milltir a'r safonau proffesiynol cysylltiol.	CACC	
3.2.8	Darparu hyfforddiant i sicrhau bod cyrff llywodraethu yn ystyried materion cynaliadwyedd.	Allau	

Camau Gweithredu		Pwy	
3.3	Rheolaeth Ysgolion		
3.3.2	Pob ysgol i gynhyrchu archwiliad ADCDF yn ei hadolygiad CDC nesaf.	Prifathrawon/ Llywodraeth- wyr/AALI	
3.3.3	Meini prawf cynaliadwyedd mewn amodau grant i adeiladau ysgol newydd a'r nifer o ysgolion newydd a godir sy'n cyrraedd safonau BREEAM i ysgolion.	IRHY	
3.3.4	Mae angen rhwydweithiau ADCDF ac adnoddau cefnogi i alluogi'r gwaith da sydd ar gael drwy awdurdodau lleol, cyrff anllwydoraethol a sefydliadau eraill i gyrraedd y rhai y mae ei angen arnynt.	EES	

Camau Gweithredu		Pwy	
3.4	Partneriaethau		
3.4.2	Ysgolion yn dod yn ffocws i weithgareddau cymunedol sy'n canolbwyntio ar ADCDF ac, fel rhan o'u rôl ffocws cymunedol, eu bod yn darparu digwyddiadau a gweithgareddau i alluogi dysgu a rennir i ddisgyblion a'u teuluoedd.	Ysgolion/ AALIau	
3.4.3	ADCDF a chysylltiadau cymunedol yn cael eu gwreiddio yng nghynllun datblygu'r ysgol*.	Prifathrawon/ Llywodraeth- wyr	
3.4.4	Sicrhau bod cysylltiadau rhwng ysgolion, eu cynlluniau ADCDF a chynlluniau fel y fframwaith y tu allan i oriau ysgol.	Addysg a Mwy/ ContinYou/ ISP	
3.4.5	Ysgolion yn datblygu cysylltiadau â chyrff allanol sy'n eu cynorthwyo i gyflwyno ADCDF. Ysgolion yn datblygu rhaglen gyson o ymweliadau y tu allan i'r ysgol yn gefn i ADCDF.	Ysgolion/ EES/ALI	

Camau Gweithredu		Pwy	
3.5	Ymchwil a Monitro		
3.5.2	Ar ôl i feini prawf ansawdd gael eu datblygu ar gyfer ADCDF, cynhyrchu dadansoddiad pontio am feysydd lle nad oes llawer o adnoddau. Comisiynu adnoddau penodol i gynorthwyo meysydd nad oes cefnogaeth ddigonol ar gael iddynt.	Panel ymgynghorol ADCDF	
3.5.3	Mae gan Estyn ddyletswydd i ailadrodd llinell sylfaen ADCDF ar ddiwedd y strategaeth gyfredol a defnyddir hynny fel sail i ddatblygu'r strategaeth ADCDF nesaf.	IPG/ Estyn	
3.5.4	Ysgolion yn datblygu cyswllt parhaus ag ysgol mewn ardal neu wlad arall, yn cynnwys gwledydd sy'n datblygu, ac yn gwneud defnydd addysgol o hynny.	Prifathrawon	
3.5.5	Cynnal gwaith ymchwil i ddatblygiadau pellach mewn ADCDF.	IAYCh	

4. Y Sector Gwaith Ieuenctid

Datblygiadau yn y sector gwaith ieuenctid yn 2006-2007

Yn allweddol i'r datblygiadau yn y sector gwaith ieuenctid y bu meithrin perthnasau rhwng ADCDF a'r Is-adran Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid ac Oedolion (ICDIO). Y person arweiniol a enwebwyd o ICDIO (Cam gweithredu 4.1.3) yw Courtney Taylor, a fu'n gweithio'n agos gyda Cyfanfyd i gyflawni camau gweithredu blaenoriaethol a bu hefyd yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu sy'n berthnasol i ICDIO. Mae Courtney yn awr wedi symud i rôl cydlynnydd awdurdodau lleol ar gyfer ADCDF dros strategaeth ac ieuenctid am gyfnod o ddeuddeg mis.

Datganiad cwricwlwm Gwaith Ieuenctid (Cam gweithredu 4.1.1)

Diweddarwyd y datganiad cwricwlwm gwaith ieuenctid a chynhwyswyd ynddo gyfeiriadau at ADCDF.

Archwiliad PPI (Cam gweithredu 4.1.2)

Cysylltwyd â phob awdurdod lleol ynghylch ADCDF o fewn eu rhaglenni partneriaeth pobl ifanc. Mae canlyniadau'r archwiliad hwn wedi dylanwadu ar ddatblygiad yr hyfforddiant a restrir isod.

Dealltwriaeth gyffredin ar gyfer y sector (Cam gweithredu 4.3.1)

Mae Cyfanfyd yn dwyn ynghyd grŵp o gynrychiolwyr o'r sector i ddechrau'r broses o ddatblygu dealltwriaeth gyffredin ar gyfer y sector. Yna bydd y gwaith hwn yn arwain at fod tendr yn cael ei gynnig i gyflawni argymhellion y grŵp.

Gwaith Ieuenctid Byd-eang (Camau gweithredu 4.4.1, 4.4.3, 4.4.7,)

Mae Cyfanfyd yn parhau â'u rhwydwaith gwaith ieuenctid byd-eang gyda chymorth gan y panel ar gyfer eleni. Mae diweddariadau rheolaidd, cyfarfodydd a gwybodaeth yn cael eu dosbarthu.



Cyfathrebu ar gyfer ADCDF (Cam gweithredu 4.2.6)

Mae'r adnoddau a ddelir yn Llyfrgell ICDIO wedi cael eu diweddaru i gynnwys adnoddau sy'n berthnasol i ADCDF. Mae'r rhain yn awr ar gael i'r holl staff sydd â diddordeb. Cynhwysir gwybodaeth berthnasol am ADCDF hefyd yn yr ohebiaeth chwe misol drwy gyfrwng y Coleg Staff, at bawb sy'n cyfranogi mewn hyfforddiant gwaith ieuenctid.

Arolwg Estyn (Cam gweithredu 4.1.5)

Rhoddwyd i Estyn y gwaith o gynnal arolwg sylfaenol ar gyfer ADCDF yn y sector gwaith ieuenctid a'r sector addysg barhaus i oedolion. Bydd yr adroddiad hwn ar gael erbyn Mawrth 2008. Bydd yr adroddiad yn dylanwadu ar ddatblygiadau pellach ym mhob sector.

Hyfforddiant (Camau gweithredu 4.5.1, 4.2.4, 4.2.5,)

Dyfarnwyd contract i Cyfanfyd, a bydd yn cysylltu gyda Choleg Cymunedol YMCA, a benodwyd gan y Cynulliad i reoli hyfforddiant i awdurdodau lleol yn y maes hwn, a'i rôl fydd sicrhau ansawdd cyffredinol y modd y cyflwynir y gwaith hwn. Bydd Cyfanfyd yn sefydlu strwythurau er mwyn i'r Coleg gyflwyno'r amcan hwn a Cyfanfyd, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am gyflawni.

At ddibenion y bennod hon, mae'r term sector ieuenctid yn ymwneud â dysgu ac addysg anffurfiol yn y gymuned ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 - 25 oed, yn arbennig y rheini rhwng 13 - 19 oed. Mae'r gwaith ieuenctid a gyflawnir yn y gwasanaeth ieuenctid a gynhelir a'r gwasanaeth gwirfoddol yn cynnwys pobl ifanc mewn amrediad eang o weithgareddau'n ymwneud ag addysg yn ei hystyr ehangaf. Mae'r 'sector' hwn hefyd yn cynnwys yr holl sefydliadau hynny, partneriaethau pobl ifanc (PPI) ac unigolion sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn amgylchedd anffurfiol. Mae hefyd yn cynnwys yr asiantaethau a'r polisiâu hynny sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc pan fyddant yn gweithio drwy sianeli addysg anffurfiol.

Cyflwyno'r Cefndir

Gall ADCDF helpu pobl ifanc i wynebu'r dyfodol ansicr hwn trwy roi'r sgiliau iddynt i wynebu byd sy'n newid, fel canolbwyntio ar sgiliau, agweddau a datblygu gwerthoedd sy'n rhoi'r gallu i weithredu fel unigolyn.

Mae gwaith ieuenctid a gwasanaethau cefnogi ieuenctid yn hanfodol i'r datblygiad hwn. Trwy weithio ochr yn ochr gyda phobl ifanc gan roi arweiniad oedolion i'w mentora a'u cefnogi fe all pobl ifanc ennill cyfleoedd datblygu.

O fewn gwaith ieuenctid, gall pobl ifanc ganfod ffyrdd positif o ymdrin â dyfodol ansicr a chael cyfle i drafod materion sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. Lle bynnag y mae hynny'n bosibl, edrychir ar atebion y gallant hwy eu hunain weithio arnynt.

Mae cynnwys pobl ifanc yn y broses hon yn holl bwysig. Rhaid iddynt gael llais ar bob cam, o ymgynghori am newidiadau, i gyflwyno a gwerthuso. Dylid annog mecanweithiau priodol fel dysgu rhwng cyfoedion a'i gilydd a dylid annog defnyddio cynlluniau sefydledig fel y Ddraig Ffynci neu fforymau ieuenctid lleol/rhanbarthol.

Mae llawer o enghreifftiau o waith rhagorol yn ennyn cyfranogiad pobl ifanc mewn ADCDF yng Nghymru, yn arbennig yn y sector ieuencid gwirfoddol. Mae angen cyd-drefnu a chynyddu'r egni, y brwdfrydedd a'r profiad hwn i sicrhau bod rhagor o bobl ifanc yn ymwybodol o ADCDF ac yn ymwneud â hi. Mae gan sefydliadau rhwydweithio fel Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol (CWVYS) a Cyfanfyd rôl bwysig i'w chwarae. Bydd hyfforddiant yn elfen bwysig o'r datblygiad hwn. O bennu safonau cenedlaethol a datblygu safonau cyffredin i ADCDF, hyd at hyfforddiant i'r rhai sy'n cyflwyno ADCDF i eraill, rhaid i hyfforddiant priodol mewn ADCDF gael ei anelu at weithwyr rhan-amser ac amser llawn fel ei gilydd. Bydd defnyddio methodolegau perthnasol a datblygu adnoddau i'w cynorthwyo yn allweddol i lwyddiant yn y dyfodol.

4.1 Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth

Mae'r datganiad cwricwlwm ar gyfer gwaith ieuencid yn gosod y ffiniau a'r cwmpas ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth gwaith ieuencid o ran agweddau strategol, darparu neu gynorthwyo. Dylid ei ehangu i gynnwys cyfeiriadau penodol at ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae fframwaith arolygu cyffredin Estyn wedi ymgorffori egwyddorion ADCDF er Medi 2004. Un rhan allweddol o'r arolygu yw gwerthuso pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion dysgwyr a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso pa mor dda y mae polisiau ac arferion y darparwr yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, ac i ba raddau y mae'r profiadau dysgu yn helpu dysgwyr i ddod yn fwy ymwybodol o faterion perthnasol a'u deall yn well.

Mae'n hanfodol fod swyddogaeth hyfforddi ac ymwybyddiaeth Cyngor Ieuencid Cymru gynt o ran ADCDF yn parhau o fewn Is-adran CDIO AADGOS Llywodraeth y Cynulliad a bod yr ymrwymiad parhaus i ADCDF yn cael ei dywys ymlaen gan hyrwyddwr penodedig ar y tîm.

Roedd y ddogfen Ymestyn Hawliau'n tynnu sylw at ddeg prif ymrwymiad ar gyfer gweithredu. Mae hyn wedi arwain at greu partneriaethau pobl ifanc (PPI) ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Mae angen corffori ADCDF o fewn y strwythurau hyn a'i chynnwys o fewn unrhyw hyfforddiant neu weithredu sy'n deillio o'r mentrau hyn.

Camau Gweithredu		Pwy	
4.1.1	Mae'r datganiad cwricwlwm gwaith ieuenctid ar gyfer Cymru yn cael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriadau penodol at ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang cyn Hydref 2006.	CDIO	
4.1.2	Archwilio PPI o ran y ddarpariaeth ADCDF yn eu cylch gwaith a'r modd y mae'n cael ei chyflenwi o 2006 ymlaen.	ALI/AALI	

4.2 Addysgu a Dysgu

Ar hyn o bryd mae ADCDF yn cael ei chyflenwi mewn amryfal ffyrdd o fewn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru. Ond mae'r cyflenwi'n dameidiog a'r safonau'n amrywio.

Rhaid wrth well hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â gwaith ieuenctid er mwyn symud ymlaen gyda gwaith ADCDF. Mae meini prawf ansawdd yn nodi elfennau sylfaenol ADCDF, methodolegau perthnasol, arddulliau addysgol ac astudiaethau achos sy'n manylu ar arferion da, yn flaenoriaeth uchel. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau sylfaen gyffredin o wybodaeth, sgiliau a gwerthoedd mewn gwaith ADCDF ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol. Dylai hyn godi ymwybyddiaeth ynglŷn â materion allweddol, darparu profiad o weithgareddau a gweithrediadau ac ysbrydoli, fel bod gweithwyr ieuenctid am ei ddefnyddio yn eu gwaith. Bydd angen i'r hyfforddiant fod yn briodol i weithwyr amser llawn a rhan-amser ac iddo gael ei integreiddio i'r pecynnau hyfforddi presennol yn hytrach na chael ei ychwanegu atynt fel rhyw elfen atodol. Mae angen ymchwilio i'r posibilrwydd o achredu hyfforddiant.

Mae methodolegau gwaith ieuenctid da yn cynnwys pobl ifanc yn eu prosesau a dylid adlewyrchu hyn mewn cynlluniau a datblygiadau newydd o fewn ADCDF. Mae yna gyfleoedd i lunio cysylltiadau rhwng agweddau addysgol ffurfiol bywydau pobl ifanc a'u gweithgareddau anffurfiol. Os yw ADCDF yn cael blaenoriaeth uwch mewn ysgolion a SABau ac yng Nghymru'n gyffredinol, dylid adeiladu ar hyn mewn gwaith ieuenctid neu i'r gwrthwyneb. Mae llawer o bynciau o fewn ADCDF, fel newid yn yr hinsawdd, tlodi byd-eang, ymgyrchu o blaid newid a delio ag ansicrwydd, y gellid eu datblygu rhwng sefydliadau ffurfiol ac anffurfiol.

Mae'r pecyn cymorth gweithio sy'n cefnogi cyflenwi'r datganiad cwricwlwm gwaith ieuenctid yn cynnwys rhai cyfeiriadau at ddinasyddiaeth fyd-eang ond mae angen cryfhau'r rhain i roi enghreifftiau o weithgareddau ADCDF i'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid ar bob lefel. Mae angen i adnoddau ddefnyddio iaith glir i sicrhau eu bod yn briodol i'r gynulleidfa h.y. eu bod yn gweddu i bobl ifanc.

Camau Gweithredu		Pwy	
4.2.1	Hyfforddiant i gyd-drefnwyr PPI mewn ADCDF yn cael ei ddarparu a'i wreiddio yn eu prosesau cynllunio o 2006.	CDIO/ALI/ AALI/ IAYCh	

4.3 Rheolaeth Sefydliadol

Dylai sefydliadau ieuenctid roi sylw i'w cynaliadwyedd fel sefydliadau a dilyn eu pregeth eu hunain. Dylai pobl ifanc fod yn ymwneud â'r broses hon drwy wneud penderfyniadau, monitro a gwerthuso canlyniadau.

Mae llawer o enghreifftiau da o ADCDF mewn gwaith ieuenctid a sut y mae hyn yn effeithio ar y ffordd y caiff canolfannau a systemau eu rhedeg. O ddehongliadau celf a drama yn ymdrin ag effeithiau defnyddio ynni, hyd at systemau rheoli amgylcheddol fel y Ddraig Ffynici ac Eco-ganolfannau, maent i gyd yn edrych ar fyw yr hyn y mae ADCDF yn ei bregethu. Gall gwaith cadwraeth ar dir o amgylch canolfannau ieuenctid a rhaglenni dinasyddion ifanc i gyd gyfuno i ddod ag ADCDF yn fyw i bobl ifanc.

Er mwyn symud ymlaen yn y maes hwn mae angen astudiaethau achos a rhannu arferion da. Mae fframwaith cyson a'r cyfle i gwrdd a thrafod profiadau'n hanfodol gan sicrhau ein bod yn adeiladu ar y gwaith da sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan wahanol gyrff, a rhannu hyn ag eraill nad ydynt eto wedi dechrau yn y maes hwn.

Camau Gweithredu		Pwy	
4.3.1	Dylid addasu'r Fframwaith ar gyfer ADCDF a ddyfeisiwyd yng Ngham 5 i gynhyrchu fersiwn sy'n ymgorffori canolfannau ieuencid a gwaith ieuencid.	IAYCH/ CDIO	

4.4 Partneriaethau

Mae'n hanfodol cydlynu a hyrwyddo ADCDF yn well gan ddefnyddio dulliau gwaith ieuencid ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol. Yn ôl amcangyfrif fod 200,000 o bobl ifanc yn gysylltiedig â grwpiau anffurfiol, mae partneriaethau effeithiol yn holl bwysig i'w cefnogi. Ystyrir bod y math hwn o gydlynu'n werthfawr tu hwnt i gefnogi gwerth gorau mewn ADCDF, gan gynnig hyfforddiant, rhannu syniadau ac adnoddau a hyrwyddo gwaith yn y maes hwn. Mae datblygu partneriaethau pobl ifanc yn darparu mecanwaith delfrydol i gynyddu ymwneud ag ADCDF, ac â'i chyflenwi. Mae'n holl bwysig fod pawb sy'n ymwneud â PPI yn cael hyfforddiant mewn ADCDF.

Y bartneriaeth fwyaf hanfodol mewn gwaith ieuencid yw honno rhwng y sefydliad neu'r cynllun a'r bobl ifanc eu hunain. Mae eu cynnwys yn y broses yn hanfodol ar bob lefel: bydd bod yn rhan o'r broses benderfynu, ymwneud â'r gwaith datblygu a rhoi newid ar waith, bod yn rhan o'r mecanwaith gweithredu a'r rhesymeg werthuso yn sicrhau a bod pobl ifanc yn ymwneud yn llwyr ag ADCDF fel rhan annatod o'u bywydau. Bydd cynlluniau presennol fel y Ddraig Ffynci, fforymau pobl ifanc lleol/rhanbarthol, ynghyd â Fforwm Ieuencid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy yn dyngedfennol er mwyn symud hyn ymlaen.

Un enghraifft o bartneriaeth lwyddiannus yw'r prosiect gwaith ieuenctid ADCDF ar y cyd sydd wedi bod yn cael ei gynnal fel prosiect partneriaeth rhwng CIC (CDIO bellach) a Cyfanfyd. Mae wedi creu diddordeb a chefnogaeth eang, wedi creu partneriaethau newydd a datblygu ADCDF ymhellach o fewn y sector statudol ac anstatudol a thrwy hynny ddarparu cyd-drefnu gwerthfawr rhwng y llu o gyrff anllywodraethol sy'n gweithio yn y sector hwn. Mae angen i'r prosiect hwn symud i gam pellach i barhau i gynyddu ymwybyddiaeth a chorffori ADCDF o fewn hyfforddiant, rhwydweithiau a darpariaeth.

Mae llawer o ddyfarniadau a chynlluniau eisoes yn bodoli yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang a allai lunio partneriaeth fwy gydag eraill i gefnogi ADCDF. Mae cynlluniau megis Gwobrau Dug Caeredin a John Muir, mudiad y Sgowtiaid a'r Geidiaid, Gwerin y Coed, Urdd Gobaith Cymru, cynlluniau cyfnewid i bobl ifanc a llawer o rai eraill eisoes wedi dechrau edrych ar ADCDF yn eu cyd-destunau eu hunain. Bydd partneriaethau rhwng sefydliadau a chynlluniau yn sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei rhoi o'r naill du a'r llall a bod pobl ifanc yn gallu canfod llwybr i ymwneud mwy ag ADCDF yn eu bywydau drwy'r sianelau presennol. Bydd cyd-drefnu'n hanfodol os yw hyn i ddatblygu fel safon gyffredin i ADCDF a fydd yn caniatáu i sefydliadau a chynlluniau fapio'r hyn y maent hwy'n ei gynnig o fewn ehangder ADCDF a gweld ymhle y maent yn ategu darpariaeth o ffynonellau eraill.

Mae angen hefyd i bartneriaethau gael eu datblygu a'u cynyddu rhwng gwaith ieuenctid a sectorau eraill. Gallai strategaethau cymunedol, cynlluniau addysg a mentrau eraill ym maes ieuchyd a chwaraeon i gyd ategu gwaith yn y sector ieuenctid a chreu darlun holistaidd o ADCDF. Dylai rhwydweithiau rhanbarthol a lleol fel Cymunedau yn Gyntaf ystyried y synergedd y gall partneriaethau ei greu.

Camau Gweithredu		Pwy	
4.4.1	Llunio parhad i'r prosiect i gydlynu gweithredu ADCDF o fewn y sector cyrff anllywodraethol sy'n canolbwyntio ar y sector ieuenctid.	CDIO/ IAYCh	

4.5 Ymchwil a Monitro

Mae angen archwilio'r ddarpariaeth gyfredol er mwyn rhoi llinell sylfaen i asesu cynnydd mewn cyflenwi a chefnogi ADCDF ar draws yr holl ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Mae angen tynnu sylw at yr arferion da a nodwyd a sicrhau eu bod ar gael i eraill i annog rhagor o ddarpariaeth. Byddai ymchwil i'r sgiliau sy'n ofynnol i 'wynebu dyfodol ansicr mewn byd sy'n newid' yn golygu bod modd cael dilyniant mewn syniadaeth ADCDF.

Camau Gweithredu		Pwy	
4.5.1	Nodi arferion da mewn hyfforddiant ar gyfer ADCDF a'u dwyn gerbron cynulleidfa ehangach.	ANID	

4.6 Camau Atodol o fewn y Sector Ieuenctid

Mae'r camau gweithredu hyn yn hanfodol i lwyddiant ADCDF yn y sector hwn. Maent i gyd yn gamau gweithredu y dylent gael eu cyflawni o fewn amserlen dair blynedd y cynllun. Fodd bynnag, bydd amseriad penodol y camau hyn a phryd y cânt eu cwblhau yn amrywio, yn dibynnu ar y gwaith adolygu polisiâu neu ddogfennau sydd wedi ei restru ac a fydd yn digwydd yn naturiol yn ystod y cyfnod hwn, y cyfleoedd sy'n codi'n lleol neu ddatblygiadau o fewn pwyntiau gweithredu eraill y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

Awgrymir corff arwain yn gysylltiedig â'r camau gweithredu a restrwyd. Nid ydym yn awgrymu mai hwn fydd yr unig gorff fydd yn ymwneud â chyflawni'r camau gweithredu, ond mai'r corff hwn fydd yn gyfrifol am yrru'r newid a nodir ymlaen drwy ddenu pob sefydliad, menter ac unigolyn perthnasol i gymryd rhan fel partneriaid.

Camau Gweithredu		Pwy	
4.1	Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth		
4.1.3	Sicrhau bod person arwain penodol yn cael ei ddynodi yn AADGOS (CDIO) i dywys ADCDF ymlaen.	LICC, CDIO	
4.1.4	Cyflwyno ADCDF i'r cyrsiau gwaith ieuenctid ar lefel AU/AB i sicrhau ei bod yn cael ei gweld fel maes blaenoriaeth i weithwyr ieuenctid sydd newydd gymhwyso.	SAUau/CDIO	
4.1.5	Rhoi dyletswydd ar Estyn i gynnal arolwg llinell sylfaen o ADCDF yn y sector.	Estyn	
4.1.6	Datblygu canllawiau atodol i sicrhau bod cydbwysedd yn cael ei sefydlu rhwng datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ac i gefnogi datblygu ADCDF mewn darpariaeth gwaith ieuenctid.	IAYCh/CDIO	
4.1.7	Dylid adolygu'r deg ymrwymiad pennaf yn deillio o'r ddogfen Ymestyn Hawliau o safbwynt ADCDF a chynnal archwiliad i amlygu'r cyfleoedd ar gyfer gwaith pellach.	CDIO	

Camau Gweithredu		Pwy	
4.2	Addysgu a Dysgu		
4.2.3	O fewn y sector statudol dylai pob aelod staff, yn cynnwys rheolwyr gwasanaethau ieuenctid a phrif swyddogion ieuenctid, ddod yn ymwybodol o ADCDF a'r effaith ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid drwy eu DPP.	AALLau/CDIO	
4.2.4	Sicrhau bod hyfforddiant 'wedi ei feincnodi' mewn ADCDF (yn cynnwys cyrsiau hyfforddi'r hyfforddwyr) a deunyddiau atodol ar gael ar gyfer pawb o fewn y sector gwaith ieuenctid yn cynnwys y sectorau statudol ac anstatudol.	CDIO, CWWYS, SAUau	

Camau Gweithredu		Pwy	
4.2	Addysgu a Dysgu		
4.2.5	Ymchwilio i achredu hyfforddiant ADCDF.	CDIO	
4.2.6	Dylai'r wybodaeth sy'n cael ei phostio ddwywaith y flwyddyn, drwy'r coleg staff, at bawb sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant gwaith ieuencid a'r llyfrgell fenthyca gael ei gwella, ei hyrwyddo a'i chynnal a'i defnyddio fel y prif gyfrwng i gynyddu ymwybyddiaeth o ADCDF.	CDIO	

Camau Gweithredu		Pwy	
4.4	Partneriaethau		
4.4.2	Agor deialog gyda phobl ifanc i wella eu gallu i gyrchu at wybodaeth ac adnoddau yn ymwneud ag ADCDF.	CDIO, WYFSD Y Ddraig Ffynci	
4.4.3	Mae angen trefnu cyfleoedd i ddod ynghyd a rhannu arferion da mewn ADCDF.	ALLau/ PPI	
4.4.4	Mae angen i ysgolion a'r sector ieuencid weithio'n fwy agos â'i gilydd o fewn ADCDF drwy agweddau fel cwricwlwm amgen a gweithwyr ieuencid mewn ysgolion.	ALLau	
4.4.5	Ceisio datblygu cytundebau lefel gwasanaeth ledled Cymru rhwng ALLau a rhwydweithiau ADCDF.	ALLau	
4.4.6	Cynyddu'r ymwneud uniongyrchol a'r cyfathrebu â phobl ifanc a'u fforymau gan ddefnyddio mecanweithiau sefydledig fel y Ddraig Ffynci i sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei chynnwys ac i rannu arbenigedd.	Y Ddraig Ffynci, WYFSD	
4.4.7	Cynyddu'r cyd-drefnu rhanbarthol ar ADCDF yn y sector gwaith ieuencid.	CDIO	

Camau Gweithredu		Pwy	
4.5	Ymchwil a Monitro		
4.5.2	Sefydlu prosiect ymchwil i ystyried y ffordd orau o ddatblygu sgiliau ADCDF yng nghyd-destun y sector gwaith ieuenctid.	IAYCh/CDIO	
4.5.3	Datblygu canllawiau ymarfer da ar gyfer gwaith yn y sector hwn.	Cyfanfyd, CWVYS/CDIO	

5. Y Sector Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith

Datblygiadau yn y Sector Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith yn 2006-2007

Bu llawer o egni a diddordeb o fewn y sector hwn ar draws ystod ehangach o agweddau ar ADCDF o gaffael, i gynllunio colegau-cyfan i ystadau. Mae sawl cynllun i gyflawni gwaith yn y sector hwn wedi cael cyllid gan y panel ADCDF ar gyfer eleni. Mae'r Hyrwyddwr ADCDF wedi cyfarfod â staff o fewn y sector AB a chrëwyd cysylltiadau gyda gwaith ADCDF sydd eisoes yn mynd rhagddo mewn colegau (prosiect Ymlaen Ceredigion yng Ngholeg Ceredigion) ac mae'r cynlluniau cyfredol yn adeiladu ar yr arbenigedd a fu'n datblygu hyd yma.

Llythyr cynllunio strategol, adroddiad ADCDF ac adnoddau (Camau gweithredu 5.1.4, 5.3.3, 5.3.2)

Cynhwysodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gais yn y llythyr cynllunio strategol blynyddol i sefydliadau addysg bellach (SABau) iddynt lunio adroddiad am ADCDF o fewn y coleg. Mae'r adroddiadau hyn bellach wedi'u cydgasglu ac fe'u defnyddir fel llinell sylfaen i asesu datblygiadau, anghenion a llwyddiannau o fewn y sector. Ar ôl trafod eu hadroddiadau gyda'r colegau bydd adnoddau ychwanegol ac esiamplau o arferion da yn cael eu cynhyrchu i'w rhannu'n ôl gyda'r sector. Mae bwriad i ailadrodd y cais hwn i golegau yn 2008.

Archwiliad o Ddysgu Seiliedig ar Waith (Cam gweithredu 5.2.2)

Gofynnwyd i bob darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) adrodd am ei gamau gweithredu ADCDF fel rhan o'r gofynion adrodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn wedi dangos arwydd clir o angen yn y sector. Mae prosiect a noddir yn awr yn mynd rhagddo i roi sylw i anghenion y sector hwn ac i ddarparu iddynt ddeunyddiau, cefnogaeth ac arferion gorau i'w symud ymlaen i roi sylw i ADCDF o fewn eu sefydliadau ac wrth gyflwyno eu hyfforddiant.



Cynadleddau (Cam gweithredu 5.2.3)

Mae'r Hyrwyddwr ADCDF wedi siarad mewn llawer o gynadleddau a chyfarfodydd yn y sector eleni, o gynhadledd genedlaethol Fforwm yng Nghaerdydd i ddyddiau hyfforddiant staff colegau unigol ac mewn cyfarfodydd prosiect mewn colegau.

Cynhadledd wedi'i threfnu ar gyfer Ebrill 2008 - (Cam gweithredu 5.1.3)

Yn dilyn datblygu adnoddau ychwanegol i golegau (a grybwyllwyd yn 5.1.4 uchod) mae cynhadledd wedi'i threfnu ar gyfer Ebrill 2008. Fe'i bwriedir ar gyfer uwch staff colegau i gynyddu proffil ADCDF ac i gynnig hyfforddiant a gweithdai ychwanegol ar feysydd allweddol ar gyfer cyflawni.

Cysylltiadau ychwanegol

Yn dilyn cais prosiect peilot oddi wrth banel ADCDF, llwyddodd Ymlaen Ceredigion i ganfod cyllid i gynnal eu prosiect i blannu ADCDF yng Ngholeg Ceredigion. Fel rhan o'r datblygiadau bydd prosiect Sus Gil yn ymdrechu i gefnogi datblygiadau cenedlaethol gydag adborth oddi wrth eu prosiect a, thrwy gyfrwng y cysylltiadau hyn, bydd yr arferion da yn cael eu lledaenu i golegau AB eraill dros y tair blynedd nesaf.

Strategaethau Caffael Cynaliadwy (Cam gweithredu 5.3.1)

Dyrannwyd cyllid i Gonsortiw Caffeal Addysg Bellach Cymru (CCABC) oddi wrth banel ADCDF i gynnal cynllun sy'n ceisio llunio strategaethau caffael cynaliadwy i bob coleg. Bydd cyfuniad o weithdai, adnoddau a chymorth cefnogi wyneb wrth wyneb yn sicrhau bod polisiâu, ac arferion yn cael eu haddasu er mwyn sicrhau bod cynaliadwyedd wrth wraidd caffael o fewn y colegau.

Cyflwyno'r Cefndir

Dylai ADCDF gael ei chynnwys yn addysg a hyfforddiant pob unigolyn 'o'r crud i'r bedd'. Mae Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) a sefydliadau hyfforddi preifat sydd yn rhannol yn darparu'r rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith a gyllidir gan y Llywodraeth yn cynnig amrywiaeth cyfoethog o gyfleoedd addysg a hyfforddiant i oedolion a phobl ifanc. Mae'r sector i gyfrif am gyfran fawr o'r ddarpariaeth Safon Uwch, y rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol, a'r mwyafrif o ddysgu ôl-16 i bobl sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae'n denu cyfran anghymesur o'i ddysgwyr o gymunedau difreintiedig, lleiafrifoedd ethnig, pobl dan anfantais a grwpiau eraill nad ydynt yn draddodiadol prin byth yn cyfranogi mewn dysgu ar ôl iddynt adael yr ysgol. Mae'r sector, felly, nid yn unig yn un sy'n sbarduno cynhwysiant, symudoledd cymdeithasol a chystadleurwydd economaidd, ond gall chwarae rôl allweddol yn creu cymdeithas gynaliadwy, sy'n ymwybodol ar lefel fyd-eang.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod na fedr roi'r camau gweithredu a gynigir ar waith ar ei phen ei hun am amryw o resymau. Un rheswm amlwg yw'r amrywiaeth o sefydliadau sy'n darparu dysgu ôl-16 - mae SABau a darparwyr hyfforddiant wedi cyrraedd manau amrywiol ar eu taith i gyflwyno ADCDF. Mae'r rhan hon o'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar adeiladu ar yr esiamplau rhagorol sy'n bodoli, a gwneud cynnydd gyda'r darparwyr hynny a fu'n fwy araf i groesawu ymarfer sydd ar flaen y gad. Mae'r strategaeth yn cyflwyno cyfres o gamau i'r sector yn ei gyfanrwydd, i sicrhau yr ymdrinnir mewn modd realistig a chyson â gwreiddio datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'r camau gweithredu a amlinellir yn y bennod hon yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu darparwyr yn y sector i ymdrin ag ADCDF a'i chyflwyno. Caiff darparwyr help i gyflawni'r canlyniadau sy'n berthnasol i'w hanghenion a'u hamgylchiadau unigol, gan gydnabod eu manau cychwyn gwahanol ar hyd y daith tuag at yr ymarfer gorau. Nid yw'r cynllun gweithredu hwn felly yn cymell defnyddio cosbau ariannol i sicrhau cynnydd. Swyddogaeth Llywodraeth y Cynulliad yw rhoi cymorth, arweiniad ac adborth i'r sector, ynghyd â monitro cynnydd - er enghraifft drwy broses cynllunio strategol y darparwyr.

5.1 Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth

Er mwyn rhoi ADCDF ar waith yn effeithiol ar draws y sector, mae'n hanfodol fod arweinwyr a rheolwyr yn wybodus wrth gymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Y cam cyntaf wrth adeiladu gallu'r sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yw codi ymwybyddiaeth o ADCDF.

Ym mis Ebrill 2005 gofynnodd ELWa fel yr oedd bryd hynny i bob SAB roi adroddiad diweddarau iddo am ei weithgareddau datblygu cynaliadwy drwy'r broses cynllunio strategol. Darparodd hyn linell sylfaen fuddiol yn dangos i ba raddau y mae'r sector AB yn hyrwyddo ADCDF drwy ei waith. Awgrymodd hyn, o'i ystyried ynghyd ag adolygiad o'r llenyddiaeth a'r canllawiau ar ADCDF a oedd ar gael, fod ymwybyddiaeth o ADCDF yn y sector dysgu a sgiliau yn cyrraedd uchafbwynt mewn ambell fan ond, yn gyffredinol, yr oedd yn is nag mewn addysg cyn-16. Mae angen codi'r lefelau ymwybyddiaeth cyn y gellir creu effaith wirioneddol. Credir felly fod yn rhaid ymgymryd ag ymgyrch gyfathrebu wedi'i thargedu.

Rhaid i'r cynnydd a ddymunir mewn cyfathrebu ac ymwybyddiaeth ynghylch ADCDF gael ei ategu â chymorth ar gyfer darpariaeth ymarferol a hyfforddiant effeithiol yn y sector. Bydd hyfforddiant sector-benodol yn hanfodol wrth fwrw ymlaen ag ADCDF. Yn ddelfrydol cyflwynir hyn gydag arbenigwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r sector.

Camau Gweithredu		Pwy	
5.1.1	Cynnal ymgyrch gyfathrebu wedi ei thargedu, gan gynnwys cysyniadau allweddol - beth yw datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; ei rôl a'i bwysigrwydd o fewn y sector. Cynhyrchu canllawiau ac arferion da a lledaenu cyngor.	DGOS	
5.1.2	Dechrau trafodaethau am sut y gellid gwreiddio datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn well yng ngweithgareddau SABau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.	DGOS	

5.2 Addysgu a Dysgu

Gwnaed llawer o waith yng Nghymru i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn y cwricwlwm ysgol. Mae'n bwysig adeiladu ar y gwaith da hwn yng nghyfnodau mwy diweddar y system addysg, fel bod pawb sy'n dysgu'n cael sgiliau ADCDF a fydd yn eu harfogi i fyw eu bywydau mewn modd cynaliadwy gan fod yn ymwybodol o'r dimensiwn byd-eang a gallu dylanwadu ar eraill i wneud yr un modd.

Ni fydd darlithwyr a hyfforddwyr nad ydynt yn wybyddus â chynaliadwyedd ac ymwybyddiaeth fyd-eang yn gallu darparu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol drwy eu haddysgu. Mae'n hanfodol felly fod darlithwyr a hyfforddwyr yn gymwys i gynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn eu haddysgu. Mae hefyd yn bwysig fod dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei thrin, lle bo hynny'n briodol, ar sail gydradd â datblygu cynaliadwy. Mae angen eglurder o ran yr hyn y byddai addysgu ADCDF o safon yn ei gynnwys yn y sefydliadau ôl-16 amrywiol i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn cael ei weld ar draws yr holl bynciau a'r rhaglenni dysgu.

Mae fframwaith arolygu cyffredin Estyn wedi ymgorffori egwyddorion ADCDF oddi ar fis Medi 2004. Mae pwysu a mesur i ba raddau y mae profiadau dysgu'n bodloni anghenion dysgwyr a'r gymuned ehangach yn rhan allweddol o arolygu, a hynny'n cynnwys gwerthuso pa mor dda y mae polisïau ac arferion y darparwr yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, ac i ba raddau y mae'r profiadau dysgu'n helpu dysgwyr i ddod yn fwy ymwybodol o faterion perthnasol.

Gall gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol ac arbenigwyr helpu i nodi o fewn SAB lle gall cyfleoedd am ADCDF ddigwydd. Un enghraifft yw lle mae Ymlaen Ceredigion wedi gweithio gyda Choleg Ceredigion yn ystod diwrnodau datblygu staff. Mae staff colegau bellach yn gallu nodi yn well ffyrdd o integreiddio'r neges gynaliadwyedd yn eu cwricwlwm a nodi hyn ar eu rhaglenni dysgu a'u cynlluniau dysgu. Mae angen datblygu rhagor o enghreifftiau o sut i integreiddio ESDGC er mwyn osgoi ychwanegu eitemau ychwanegol at gyrsiau ni waeth ydynt yn addas ac yn gweddu i'r cyrsiau.

Camau Gweithredu		Pwy	
5.2.1	Rhoi cymorth i ddarparwyr sy'n gwella eu dull o ymdrin â datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, yn unol â'r nodau a amlinellwyd yn adran ymchwil a monitro'r ddogfen hon.	Fforwm/ Darparwyr Hyfforddiant Preifat/ DGOS	
5.2.2	Archwilio anghenion hyfforddiant SABau, a gweithio gyda SABau a darparwyr hyfforddiant preifat i ddarparu dadansoddiad o ba weithgareddau datblygu sy'n ofynnol.	Fforwm/ DGOS	

5.3 Rheolaeth Sefydliadol

Ystadau Cynaliadwy

Y ffordd fwyaf amlwg y gall sefydliad arddangos ei ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yw'r modd y mae'n rheoli ei ystadau a'i gyfleusterau. Mae ansawdd gofod a lle ar gyfer dysgu o bwys sylfaenol i'r profiad dysgu. Mae llawer o waith da'n cael ei wneud eisoes ac mae'n bwysig adeiladu ar y gwaith hwn a'i rannu ar draws y sector. Mae'n allweddol bwysig fod pob darparwr yn ymwybodol o amrediad eang o faterion cynaliadwyedd, byd-eang ac amgylcheddol wrth iddynt gynllunio, dylunio, adeiladu a rheoli eu cyfleusterau. Mae disgwyliad cynyddol y dylai SABau danystrifio i systemau rheoli amgylcheddol addas fel y Ddraig Werdd.

Mae angen i ddeunyddiau cymorth ac esiamplau o arferion da gael eu darparu mor eang â phosibl. Bydd hyn yn help i ddarparwyr nad ydynt eto wedi dechrau ar y siwrnai hon i elwa o brofiadau'r rhai sydd wedi cymryd llawer o gamau positif tuag at reolaeth amgylcheddol a chynaliadwy.

Caffael

Mae gallu gwario'r sector dysgu a sgiliau'n rhoi cyfle gwirioneddol i brynu mewn modd cynaliadwy ac ymwybodol yn fyd-eang. Yn 2003/04, roedd gan Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru gyfanswm incwm o £350.1m, yr oedd £256.3m ohono'n nawdd

craidd gan ELWa. Derbyniwyd £15.4m ychwanegol o gontractau Dysgu Seiliedig ar Waith. Gan fod hwn yn arian cyhoeddus a bod dyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy ei holl swyddogaethau a'r modd y mae'n gwneud busnes, dylid gwario'r arian hwn mewn modd sy'n cefnogi amcanion ADCDF. Gwneir hyn fwyfwy drwy roi ystyriaeth briodol i effaith y modd y mae nwyddau'n cael eu caffael ar yr amgylchedd a'r gymuned ac amodau cymdeithasol y rheini sy'n cyflenwi neu'n derbyn y cynnyrch neu'r gwasanaeth (yn y byd datblygedig a'r byd sy'n datblygu). Mae a wnelo caffael cynaliadwy â mwy na dim ond agweddau ariannol cynnyrch - rhaid edrych hefyd ar ystyriaethau moesegol megis o ba ddefnydd y mae cynhyrchion wedi cael eu gwneud, o ble y dônt a phwy sydd wedi eu gwneud.

Mae pob SAB yng Nghymru yn aelod o Gonsortium Pwrcasu Addysg Bellach Cymru (CPABC). Nod pennaf CPABC yw gwneud cyfraniad cydnabyddedig, y mae modd ei fesur, tuag at lwyddiant sector AB Cymru drwy arferion caffael proffesiynol. Dylai agweddau datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ymddangos yn rheolaidd ar yr agenda a, chyda chyllid a chymorth, dylai'r grŵp osod targedau cyraeddadwy a realistig. Dylid edrych hefyd drwy brosesau cynllunio strategol y darparwyr ar bosibiliadau eraill megis SABau yn gweithio drwy fenter Datblygu Cynaliadwy Gwerth Cymru.

Effaith Trafnidiaeth

Mae'n bwysig lleihau effaith trafndiaeth ar yr amgylchedd i'r eithaf, yn arbennig gan fod Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno symud tuag at economi 'carbon-isel'. Gellir lleihau'r effaith drwy leihau'r defnydd o betrol, llygredd a milltired ceir i'r eithaf a chynyddu nifer y myfyrwyr a'r staff sy'n teithio'n gynaliadwy (trwy gerdded, beicio, rhannu car neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus).

Camau Gweithredu		Pwy	
5.3.1	Drwy CPABC gofynnir i bob SAB ddatblygu strategaeth caffael cynaliadwy o fewn y sefydliad.	SABau/ CPABC	

5.4 Partneriaethau

Mae egni a brwdfrydedd enfawr yn y sector gwirfoddol ac ymysg cyrff anllywodraethol ynglŷn ag ADCDF. Dylai darparwyr dysgu ddatblygu partneriaethau gydag arbenigwyr allweddol ym maes ADCDF, fel cyrff anllywodraethol, i'w helpu i ddatblygu mesurau priodol o fewn eu sefydliadau eu hunain.


Mae angen i brosiectau peilot a chynlluniau arloesol, fel y dangoswyd gan Ymlaen Ceredigion a Choleg Ceredigion, gael eu rhannu gydag eraill.

Camau Gweithredu		Pwy	
5.4.1	Bod yr arferion gorau o ran datblygu partneriaethau ADCDF yn cael eu rhannu o fewn y sector.	Ymlaen Ceredigion /Fforwm	

5.5 Ymchwil a Monitro

Cyn cynyddu gallu addysg bellach a'r sector dysgu seiliedig ar waith, rhaid manylu ar ddisgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad o'r sector.

Isod nodir yr egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y'u disgrifir yn fframwaith Datblygu Cynaliadwy y DU. Drwy'r Panel ADCDF, dylai'r sector a'i gyllidwyr geisio adeiladu ar y gwaith hwn a dynodi'n glir beth yw ADCDF lwyddiannus yn y sector dysgu a sgiliau. Bydd hyn yn hwyluso cyfathrebu clir ac yn golygu bod modd monitro cynnydd.



Ffynhonnell: 'One future - different paths'. Fframwaith a rennir drwy'r DU o blaid Datblygu Cynaliadwy

5.6 Camau Atodol i Gefnogi ADCDF o fewn y Sector Addysg Bellach a Seiliedig ar Waith

Mae'r camau gweithredu hyn yn hanfodol i lwyddiant ADCDF yn y sector hwn. Maent i gyd yn gamau gweithredu a ddylai gael eu cyflawni o fewn amserlen dair blynedd y cynllun gweithredu hwn. Fodd bynnag, bydd amseriad penodol y camau hyn a phryd y cânt eu cwblhau yn amrywio, yn dibynnu ar y gwaith adolygu polisïau neu ddogfennau sydd wedi ei restru ac a fydd yn digwydd yn naturiol yn ystod y cyfnod hwn, y cyfleoedd sy'n codi'n lleol neu ddatblygiadau o fewn pwyntiau gweithredu eraill y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

Awgrymir corff arwain yn gysylltiedig â'r camau gweithredu a restrwyd. Nid ydym yn awgrymu mai hwn fydd yr unig gorff fydd yn ymwneud â chyflawni'r camau gweithredu, ond mai'r corff hwn fydd yn gyfrifol am yrru'r newid a nodir ymlaen drwy ddenu pob sefydliad, menter ac unigolyn perthnasol i gymryd rhan fel partneriaid.

Camau Gweithredu		Pwy	
5.1	Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad		
5.1.3	Cynnal cyfres o raglenni arweinyddiaeth, yn arbennig ar gyfer arweinwyr a rheolwyr.	Fforwm DGOS	
5.1.4	Defnyddio proses cynllunio strategol SABau i wreiddio ADCDF yn y sector e.e. drwy gynnwys adran ar ADCDF yn y cynlluniau strategol a gyflwynir gan SABau yn flynyddol.	SABau/ DGOS	

Camau Gweithredu		Pwy	
5.2	Addysgu a Dysgu		
5.2.3	Sicrhau bod rhwydweithiau cyfredol a grwpiau datblygu cwrwllwm yn cael eu hannog i gynnwys ADCDF ar eu hagendâu.	Fforwm	
5.2.4	Cynnal trafodaethau rhyngasiantaethol i ymchwilio i sut y gallai ADCDF gael ei gwreiddio'n fwy effeithiol ym mhob cymhwyster ôl-16.	DGOS/QCA,/ CCEA/CBAC	
5.2.5	Bod enghreifftiau arferion gorau a chanllawiau atodol yn cael eu darparu.	DGOS	

Camau Gweithredu		Pwy	
5.3	Rheolaeth Sefydliadol		
5.3.2	Bydd grŵp sector cyfan Fforwm yn parhau i gynhyrchu canllawiau am reoli ynni yn y sector AB a bydd yn ehangu i archwilio agweddau eraill ar reoli ystadau gyda golwg ar faterion cynaliadwyedd, megis defnyddio dŵr, lleihau gwastraff, rheoli adeiladu mewn modd cynaliadwy a chynyddu bioamrywiaeth.	DGOS/ Fforwm/ SABau	
5.3.3	Dylid annog pob sefydliad (drwy enghreifftiau arferion da) i ddatblygu system addas o reolaeth amgylcheddol a mesurau cyfatebol yn ymwneud ag ymwybyddiaeth fyd-eang, sy'n cwmpasu ei holl weithgareddau er mwyn lleihau ei ddefnydd o adnoddau drwyddo draw i lefelau cynaliadwy, sy'n dangos ymwybyddiaeth fyd-eang.	DGOS/ SABau	
5.3.4	Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu canllawiau i AALLau ar agweddau ADCDF yn y cylchlythyron polisi am drafndiaeth leol.	DGOS	

Camau Gweithredu		Pwy	
5.4	Partneriaethau		
5.4.2	Dechrau deialog rhwng SABau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a chyrff anllywodraethol i edrych ar y defnydd gorau o ddarparwyr/adnoddau/cymorth ar gyfer ADCDF.	DGOS/ Fforwm	
5.4.3	SABau i gymryd camau gweithgar i ddechrau ymwneud â rhwydweithiau lleol sy'n berthnasol i ADCDF.	SABau	

6. Y Sector Addysg Uwch

Datblygiadau yn y Sector Addysg Uwch yn 2006-2007

Mae CCAUC wedi mynd ag ADCDF i'w pwyllgor ac wedi cynhyrchu cynllun gwaith i gyflawni'r camau gweithredu a briodolwyd iddynt. Bu'r Hyrwyddwr ADCDF yn gysylltiedig â'r cyfarfodydd gyda CCAUC a'r pwyllgor Trydedd Genhadaeth i edrych ar ddatblygiadau. Ariannwyd tri phrosiect rhyng-gysylltiedig eleni i gyflawni cynlluniau penodol.

Arweiniad strategol (Cam gweithredu 6.1.2)

Gofynnodd CCAUC i SAUau gynnwys adran ar ADCDF yn eu hadroddiadau strategol ar gyfer 2007. Gofynnwyd i'r SAUau beth, yn eu barn hwy, oedd y goblygiadau i'r sefydliad o ran y camau gweithredu yr oeddent yn eu cymryd i ddatblygu a phlannu egwyddorion ADCDF ar draws ystod o weithgareddau, er enghraifft o ran gweithgareddau dysgu ac addysgu; gweithgareddau trydedd genhadaeth a hyfforddi arweinyddion ac uwch dimau rheoli. Bu i ni ofyn iddynt ddarparu'r wybodaeth hon o safbwynt strategaeth gyffredinol y sefydliadau, ei chyplysu â'r Strategaeth Trydedd Genhadaeth a/neu'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu fel oedd yn briodol. Yn benodol, gofynnem i SAUau osod allan sut y bwriadant lunio fframwaith ac amserlen i gyflawni eu cyfraniad i'r strategaeth allweddol hon gan y Cynulliad. O ganlyniad i'r ymarferiad hwn, mae CCAUC wedi cronni corff o wybodaeth y gellir ei ddefnyddio fel llinell sylfaen i'w ddadansoddi a chyfeirio ato i'r dyfodol a sicrhau bod y datblygiadau a gynigir ar gyfer y sector AU yn unol â'u gofynion.

Cynrychiolwyr SAU (Cam gweithredu 2.1.6)

Cysylltwyd â phob canghellor ym mhob sefydliad addysg uwch (SAU) i enwebu cynrychiolydd o'i sefydliad i weithredu fel sianel i ADCDF ar gyfer rhannu a derbyn gwybodaeth yn y sefydliad. Mae'r rhestr hon yn awr yn gyflawn i raddau helaeth a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r grŵp hwn yn Hydref 2007. Byddant yn cyfrannu at ddatblygu prosiectau ac yn helpu i ganoli'r egni ar ddatblygiadau i'r dyfodol sy'n deillio o'r strategaeth.



Prosiectau y cyllidebwyd ar eu cyfer yn 2007/08

Rhannu Arferion Da (Cam gweithredu 6.1.1)

Ar ddechrau 2008, bydd CCAUC yn comisiynu dadansoddiad allanol o'r wybodaeth a ddarparwyd drwy gyfrwng yr ymarferion Cynllunio Strategol (gweler 6.1.2 uchod) ac yn rhannu'r arferion gorau gyda sector AU Cymru.

Systemau Rheoli Amgylcheddol (Cam gweithredu 6.3.1)

Dyrannwyd cyllid i CCAUC i hwyluso datblygu SRhA addas mewn SAUau. Mae'r manylion wrthi'n cael eu cwblhau, gyda'r cyllid yn cael ei ryddhau i SAU yn gynnar yn 2008. Mae CCAUC hefyd yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe a Chymdeithas Amgylcheddol Prifysgolion a Cholegau Cymru (CAPCC) i ddarparu cefnogaeth a chyfarwyddyd pellach i SAUau yn y maes hwn.

Hyfforddiant a Chynyddu Ymwybyddiaeth (Cam gweithredu 6.1.3)

Bydd CCAUC yn cynnal cynhadledd ADCDF ar gyfer y sector AU ym Mai 2008. Bydd y digwyddiad hwn yn canolbwyntio ar arferion da ac ar anghenion hyfforddiant ac arweinyddiaeth. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Academi Addysg Uwch a chydag arweinyddion ADCDF mewn SAUau.

Cynlluniau Caffael Cynaliadwy (Cam gweithredu 6.3.2)

Gellir adrodd am nifer o weithgareddau cysylltiedig yma. Mae CCAUC yn monitro SAUau drwy gyfrwng eu cynlluniau gweithredu Gwiriadau lechyd Ffitrwydd Caffael y mae caffael cynaliadwy yn un elfen ohonynt - y cam gweithredu o safbwynt SAUau yw gwyllo, a gweithio gyda Gwerth Cymru. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn gweithio gyda swyddogion Gwerth Cymru ar ddiweddaru'u cyfrwng caffael cynaliadwy: bydd y gwaith hwn yn golygu targedu a gweithio, yn gyntaf, gyda SAUau mwyaf Cymru (gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ym Mhrifysgol Caerdydd yn Ionawr 2008). Mae CCAUC hefyd wrthi'n hyrwyddo Cwrs Caffael Cynaliadwy Gwerth Cymru 'Gwneud Iddo Ddigwydd' gyda'r sector a drwy Gonsortium Pwrcasu Addysg Uwch Cymru.

Darpariaeth trydedd genhadaeth

(Cam gweithredu 6.4.2)

Gofynnwyd i SAUau adrodd am weithgareddau trydedd genhadaeth fel rhan o'u Strategaethau Trydedd Genhadaeth tair blynedd newydd (2007/08 i 2009/10). Bydd y wybodaeth hon yn cael ei bwydo drwodd i'r astudiaeth o'r arferion gorau.

(Cam gweithredu 6.4.3)

Gofynnwyd i SAUau gyplysu eu Cynlluniau Strategol (dan 6.1.2) gyda'u Strategaethau Trydedd Genhadaeth (dan 6.4.2).

HAGA (Cam gweithredu 6.2.3)

Datblygu canlyniadau dysgu clir, deunyddiau cymorth ac adnoddau ar gyfer SAC mewn perthynas ag ADCDF. Darparu hyfforddiant i staff mewn sefydliadau HAGA er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o ADCDF a'r arferion gorau o safbwynt ei chyflwyno i athrawon dan hyfforddiant. Cyflwyno'r ddealltwriaeth gyffredin o ADCDF i bob coleg HAGA a darparu adnoddau i athrawon dan hyfforddiant. Bydd hwn yn ddilyniant i brosiect peilot UCET Cymru, ac yn datblygu'r cysylltiadau a'r momentwm a grëwyd o fewn y prosiect hwnnw.

Cyflwyno'r Cefndir

Bydd gweithredu ADCDF yn effeithio ar bob rhan o gymdeithas a phob rhan o'n bywydau. (Bydd yn holl bwysig fod cymaint ag sy'n bosibl yn dod i ddeall ADCDF os yw pobl am gymryd rhan frwdfrydig yn y trawsnewidiadau cymdeithasol a fydd yn digwydd.) Bydd angen i wybodaeth fod ar gael i bob sector mewn cymdeithas - o'r rheini sydd yn safle arweinwyr ar hyn o bryd i'r rhai hynny sy'n cymryd eu camau cyntaf mewn addysg. Mae gan AU rôl allweddol, gan fod y myfyrwyr sy'n mynd drwy'r sector yn cynnwys cyfran sylweddol o gymdeithas ifanc, rhai sydd mewn oed lle bo holi a ffurfio barn yn holl bwysig, ac o'r rheini fydd yn arwain yn y dyfodol. Mae'r dull o ddysgu mewn AU yn annog cymryd agwedd gyfrannog, feirniadol a fydd yn hanfodol wrth roi ADCDF ar waith; a bydd y dulliau integreiddiol o feddwl sydd ymhlyg yn ADCDF yn sicr o wella dysgu.

Mae rôl SAUau mewn ADCDF yn ganolog oherwydd:

- maent yn addysgu nifer fawr o weithwyr proffesiynol ac arweinwyr cymdeithas yfory;
- mae ganddynt rôl fawr i'w chwarae yn rheolaeth amgylcheddol eu sefydliadau a'u polisiau caffael gan sicrhau bod prosesau sy'n ymwybodol o ystyriaethau byd-eang, cadarn yn foesebol a chytbwys yn amgylcheddol yn cael eu cyflwyno;
- mae ganddynt botensial i ddylanwadu ar eraill y tu allan i'r brifysgol drwy gyfleoedd datblygu a hyfforddi proffesiynol.

Mae 12 SAU yng Nghymru, ynghyd â'r Brifysgol Agored, a chyda'i gilydd maent yn gyflogwyr ac yn ddefnyddwyr o bwys yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae cryn arbenigedd ganddynt hefyd ym meysydd ADCDF. Gellir troi eu heffaith hwy gyda'i gilydd i fod yn gatalydd ar gyfer dysgu am ADCDF.

Mae'r sector AU yn cyflogi bron i 6,874 o staff ac yn addysgu dros 120,000 o fyfyrwyr amser llawn neu ran-amser.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn fan cychwyn i weithredu cydlynol o ran ADCDF. Bydd y camau a amlinellir yn sicrhau bod sefydliadau yn dechrau rhoi sylw i agweddau o gynaliadwyedd ac ymwybyddiaeth fyd-eang ymysg staff, myfyrwyr ac fel sefydliadau eu hunain. Maent wedi'u cynllunio fel eu bod yn parchu'r ymreolaeth gwricwlaidd y mae AU yn ei mwynhau'n draddodiadol ac yn briodol. Y cam cyntaf yw canfod beth sy'n cael ei ddysgu mewn perthynas ag ADCDF, a ble y byddai modd ei gyflwyno'n hwylus mewn modd buddiol a gwirfoddol. Mae'r cynllun hefyd yn cymhell y dylai SAUau hunanasesu eu harferion cyfredol, dadansoddi ymhle y gallai ADCDF gymryd ei lle'n hawdd o fewn y cwricwla cyfredol ac amlygu unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Dylai enghreifftiau lle mae SAUau eraill wedi gwneud hyn yn effeithiol iawn - er enghraifft ym Mhrifysgol Cymru, Bangor gael eu rhannu fel astudiaethau achos. Yn ogystal, gall systemau rheoli amgylcheddol a newidiadau caffael wneud gwelliannau sylweddol i ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang o fewn y sefydliad.

Dim ond os ydynt yn cael eu haddysgu gan staff sy'n wybyddus â chynaliadwyedd ac ymwybyddiaeth fyd-eang y bydd sefydliadau yn gallu cynhyrchu graddedigion sy'n wybyddus â chynaliadwyedd ac ymwybyddiaeth fyd-eang. Bydd codi ymwybyddiaeth a hyfforddi pawb o'r staff yn faes blaenoriaeth. Bydd rhannu arferion da yn hanfodol er mwyn adeiladu ar lwyddiannau cyfredol a helpu eraill i ddechrau cymryd camau tebyg. Bydd a wnelo hyn nid dim ond â staff, ond myfyrwyr, staff rheoli a staff ystadau ynghyd â chymunedau lleol y prifysgolion.

6.1 Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth

Mae rôl holl bwysig gan arweinwyr yn cefnogi'r newid i ddatblygu cynaliadwy, drwy arwain cynllunio strategol sefydliadau, rheoli rhaglenni cyfalaf mawr ac arwain rhyngweithio'r sefydliadau gyda rhanddeiliaid allanol. Mae rôl symbolaidd gan arweinwyr hefyd yn dylanwadu ar farn staff a myfyrwyr ynglŷn â datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'n holl bwysig fod ymrwymiad tuag at ADCDF yn amlwg ar frig pob SAU, a bod gweledigaeth glir ar gyfer ADCDF i'w gweld gan yr holl staff o fewn pob SAU. Felly bydd angen i'r rhai sy'n arwain o fewn SAUau gael y sgiliau eu hunain i wneud penderfyniadau sy'n gydnaws â'r agenda hon.

Camau Gweithredu		Pwy	
6.1.1	SAUau i nodi pa gamau y maent yn eu cymryd i ddatblygu ADCDF o fewn eu sefydliadau. Cynhyrchu dadansoddiad o arferion da i'w rannu yn eang gyda SAUau.	CCAUC	
6.1.2	SAUau i gynnwys adran ar ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn eu cynlluniau strategol. Dylai hyn egluro sut yr eir i'r afael â hyfforddiant mewn ADCDF a sut y bydd yn cael ei gyflenwi.	CCAUC	

6.2 Addysgu a Dysgu

Dylai AU gynnig y cyfle i fyfyrwyr ddysgu am ADCDF fel un ai:

- gwrs wedi'i neilltuo'n rhannol neu'n gyfan gwbl ar gyfer ADCDF,
- neu fel cydran fach wirfoddol neu orfodol o bob cwrs arall.

Mae enghreifftiau o bob un o'r opsiynau hyn yn dechrau cael eu datblygu, megis defnyddio datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang i ddarparu dysgu rhyngddisgyblaethol a heriol wedi'i seilio ar faterion penodol mewn modiwlau generig, dull y mae Prifysgol Cymru, Bangor yn edrych arno ac yn arloesi gydag ef. Mae angen gwneud gwaith i asesu sut y gellid cyflawni dilyniant synhwyrol drwodd o'r flwyddyn is-radd gyntaf hyd at gyrsiau Meistr gydag ADCDF ar fannau priodol ar hyd y llwybr hwn yn ei gyfanrwydd.

Mae rhai sefydliadau eisoes wedi cynnal archwiliad ar draws eu holl addysgu i asesu ble dysgir ADCDF a ble gellid ei ymgorffori'n briodol. Bydd angen datblygiad proffesiynol parhaus a chefnogaeth ddigonol wedyn i gynyddu gallu staff dysgu i allu ymgorffori agweddau o ADCDF o fewn eu gwaith.

Un maes holl bwysig yw hyfforddi athrawon. Mae Cymru mewn sefyllfa dda i gyflwyno ADCDF mewn hyfforddiant dysgu. Mae hon yn ffordd syml a chost-effeithiol o sicrhau fod pawb sy'n athrawon yn llythrennog mewn ADCDF. Ond bydd angen datblygu deunyddiau atodol ar gyfer darlithwyr a myfyrwyr ac adlewyrchir hynny yng ngham gweithredu 3.2.5 uchod.

Camau Gweithredu		Pwy	
6.2.1	Bydd dadansoddiad mewnol yn cael ei gynnal gan SAUau o ble y dysgir ADCDF ar hyn o bryd drwy'r sefydliad a ble y gellid ei ymgorffori ymhellach.	SAUau	

6.3 Rheolaeth Sefydliadol

Pe na bai sefydliadau AU ond yn ymchwilio i gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang ac yn addysgu am y materion hyn, gallent gael eu cyhuddo o fod yn rhagrithiol; mae'n hanfodol iddynt ei roi ar waith yn ogystal. Golyga hyn gael polisi rheoli cynaliadwy ac ymwybyddiaeth fyd-eang ar gyfer pob sefydliad, a'i roi ar waith. Gall polisi o'r fath gynnwys materion amgylcheddol amlwg ynni, gwastraff, dŵr a thrafnidiaeth; dylai hefyd ystyried materion economaidd a chymdeithasol yn lleol ac yn fyd-eang. Dylid archwilio caffael yng ngoleuni agenda'r Cynulliad a'r cynllun gweithredu Datblygu Cynaliadwy. Atgyfnerthwyd y negeseuon hyn mewn adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru ar reoli dŵr ac ynni, adroddiad y mae'r sector AU yn ymateb iddo'n gadarnhaol.

Gyda'i gilydd mae'r sefydliadau hyn yn gyfrifol am:

- ddefnyddio 120 miliwn kWh o drydan y flwyddyn am gost o dros £5 miliwn;
- defnyddio 231 miliwn kWh o nwy y flwyddyn am gost o dros £3 miliwn;
- mae hyn yn cyfateb i gyfanswm cyfun sy'n cyfateb i dros 87,000 tonnall fetrig o ollyngiadau carbon deuocsid;
- defnyddio dros 1.3 miliwn metr ciwbig o ddŵr y flwyddyn am gost o dros £2.5 miliwn;
- gall teithio ar fusnes mewn blwyddyn i SAU canolig ei faint o Gymru fod yn gymaint â 7.7m km.

Bydd yn talu ar ei ganfed i sefydliadau fod yn fwy cynaliadwy ac ymwybodol yn fyd-eang - gall hynny arbed arian, bydd yn dda o safbwynt cysylltiadau cyhoeddus, a bydd o gymorth i gwrdd ag anghenion newidiol y corff myfyrwyr a recriwtio myfyrwyr. Mae modd cynnwys myfyrwyr yn y broses o ddod yn fwy cynaliadwy a dylai hynny gael ei wneud.

Adnoddau'r sefydliadau eu hunain ddylai ysgwyddo'r rhan fwyaf o gost gweithredu polisi cynaliadwyedd sy'n cynnwys ymwybyddiaeth fyd-eang, ac maent mewn sefyllfa i allu gwneud hynny; un eithriad o bosib fyddai cost gyfalaf adeiladu o'r newydd neu waith adnewyddu mawr. Mae cost ychwanegol gwneud adeiladau yn fwy 'gwyrdd' i leihau eu costau cynnal a'u defnydd o ynni, ac i

sicrhau graddfa BREEAM uwch, yn gost sylweddol, ac eto mae'n arwain at gostau cynnal is. Mae'r ffordd y mae prosiectau cyfalaf a referniw yn cael eu cyllido yn gweithio yn erbyn ymdrin ag adeiladu mewn modd cynaliadwy, gydag ymwybyddiaeth fyd-eang, ac yn erbyn ymdrin mewn modd rhesymegol â lleihau gwariant drwyddo draw. Mae gwerth gorau am arian ar brosiectau cyfalaf fel y'u cyllidir ar hyn o bryd yn atal llawer o fesurau 'gwyrdd' i bob pwrpas ac yn cynyddu gwariant yn ystod oes yr adeilad yn ddiangen. Awgrymwn y gallai dull ffres, yn defnyddio prisio ar sail cylch oes o bosibl, ddatrys y broblem hon.

Camau Gweithredu		Pwy	
6.3.1	Dylid annog pob sefydliad AU (trwy gyfrwng enghreifftiau o arferion da) i ddatblygu system rheoli amgylcheddol addas a mesurau cyfatebol sy'n cynnwys ei holl weithrediadau er mwyn lleihau ei ddefnydd o adnoddau at ei gilydd i lefelau cynaliadwy.	CCAUC	
6.3.2	Anogir SAUau i ymrwymo i a gweithio gyda Menter Caffael Cynaliadwy Cymru.	CCAUC	

6.4 Partneriaethau

Mae gan AU 'drydedd cenhadaeth' - yn ogystal ag addysgu ac ymchwil, gosodwyd iddo'r cyfrifoldeb o weithio gyda busnesau, y llywodraeth a chymunedau o ran lleoliad neu ddiddordeb, i wella ansawdd bywyd a hwyluso trosglwyddo gwybodaeth.

Mae'r partneriaethau y bydd SAU yn eu ffurfio gyda'i gymuned a busnesau lleol yn rhan hanfodol o'i ffocws trydedd genhadaeth. Dylid corffori ADCDF yn y perthnasoedd gwaith hyn.

Gall SAUau gynnig rôl ganolog yn hyfforddi staff ALLau mewn materion ADCDF drwy gyrsiau datblygiad proffesiynol a chysiau eraill.

Camau Gweithredu		Pwy	
6.4.1	Cynnal archwiliad i ba fentrau trydedd genhadaeth sy'n cynnwys ADCDF ar hyn o bryd.	CCAUC	

6.5 Ymchwil a Monitro

Mae staff mewn SAUau yn dysgu a gwneud ymchwil. Felly, er mwyn cyflwyno ADCDF, mae angen llinyn ymchwil cyfochrog sy'n gefn i faterion datblygu cynaliadwy ac ymwybyddiaeth fyd-eang. Mae sicrhau sylfaen ymchwil gritigol gyda ffocws pendant ar gyfer ADCDF yng Nghymru yn holl bwysig er mwyn i'r wlad gyflawni ei hymrwymiad i ADCDF. Wnaiff corff ymrwymedig a galluog o ymchwilwyr ar agenda ADCDF ddim tyfu dros nos - rhaid ei ddatblygu. Bydd angen trafodaethau a datblygiadau gyda sefydliadau fel Cyngorau Ymchwil, sefydliadau unigol a'r weithdrefn Ymarferiad Asesu Ymchwil (RAE) er mwyn datblygu cymuned ymchwil yn gweithio ar ADCDF.

Nid yw ADCDF yn ddisgyblaeth ymchwil draddodiadol: er enghraifft nid oes panel nac is-banel i'w chynrychioli yn Ymarferiad Asesu Ymchwil y DU. Yn ychwanegol at hynny, nid oes unrhyw ffrydiau ymchwil penodol ar ei chyfer. Mae rhai meysydd pwysig sydd heb eu cyllido, ac nid yw'r ymchwil gwirioneddol rhyngddisgyblaethol - sy'n ganolog i'r cysyniad o ADCDF, yn cael ei ariannu'n ddigonol. Ac felly fe allai'r mecanweithiau ar gyfer cyllido ymchwil ymddangos fel pe baent yn ddi-drefn, yn dameidiog a heb eu cydlynu, a hynny mewn gwlad sy'n ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy. Mae angen mecanwaith i sicrhau ymchwil i ADCDF sy'n briodol i anghenion Cymru gyda ffrwd gyllido hygyrch i ymchwilwyr mewn AU.

Gallai ymchwil AU greu rhagoriaeth mewn cynaliadwyedd o fewn y sefydliad a hefyd o fewn Cymru fel arweinydd yn y maes hwn. Byddai hyn yn cyd-fynd â sefyllfa unigryw Cymru y mae ei dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy wedi ei gorffori yn ei chyfansoddiad.

Camau Gweithredu		Pwy	
6.5.1	Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu neu gryfhau ffrydiau cyllido rhyngddisgyblaethol ar gyfer ymchwil Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang gyda'r cyngorau ymchwil a'r UE.	LICC/ Cyngorau Ymchwil y DU/UE	

6.6 Camau Atodol o fewn y Sector Addysg Uwch

Mae'r camau gweithredu hyn yn hanfodol i lwyddiant ADCDF yn y sector hwn. Maent i gyd yn gamau gweithredu y dylent gael eu cyflawni o fewn amserlen dair blynedd y cynllun gweithredu hwn. Fodd bynnag, bydd amseriad penodol y camau hyn a phryd y cânt eu cwblhau yn amrywio, yn dibynnu ar y gwaith adolygu polisïau neu ddogfennau sydd wedi ei restru ac a fydd yn digwydd yn naturiol yn ystod y cyfnod hwn, y cyfleoedd sy'n codi'n lleol neu ddatblygiadau o fewn pwyntiau gweithredu eraill y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

Awgrymir corff arwain yn gysylltiedig â'r camau gweithredu a restrwyd. Nid ydym yn awgrymu mai hwn fydd yr unig gorff fydd yn ymwneud â chyflawni'r camau gweithredu, ond mai'r corff hwn fydd yn gyfrifol am yrru'r newid a nodir ymlaen drwy ddenu pob sefydliad, menter ac unigolyn perthnasol i gymryd rhan fel partneriaid.

Camau Gweithredu		Pwy	
6.1	Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad		
6.1.2	SAUau i gynnwys adran am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn eu cynlluniau strategol. Dylai hyn egluro sut maent yn ymdrin â hyfforddiant mewn ADCDF ac yn ei gyflwyno.	CCAUC	
6.1.3	Hyfforddiant ar gyfer ADCDF yn cael ei ddarparu i arweinwyr ac uwch dimau rheoli yn holl sefydliadau AU Cymru.	AU/ CCAUC/ AUC	

Camau Gweithredu		Pwy	
6.2	Addysgu a Dysgu		
6.2.2	CCAUC i gynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) i archwilio a ddylai cyfraniad at ADCDF gael ei ystyried fel rhan o'r trefniadau sicrhau ansawdd.	CCAUC, ASA	
6.2.3	Bydd cyhoeddiadau cymorth ac arweiniad yn cael eu hadolygu i sicrhau bod ADCDF ymhlyg ynddynt a'u bod yn annog myfyrwyr i ddatblygu ADCDF yn eu cyfnod sefydlu, DPC a DPP.	CCAUC	

Camau Gweithredu		Pwy	
6.3	Rheolaeth Sefydliadol		
6.3.3	Adolygir y defnydd o gostiadau cylch oes i brosiectau adeiladu ac adnewyddu mawr gyda golwg ar adolygu'r ffordd o gyllido prosiectau cyfalaf a chostau cynnal a chadw a chostau rhedeg.	CCAUC/ SAUau	
6.3.4	Sefydliadau i fabwysiadu a gweithredu Polisi Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn ddiwyd drwy brosesau cynllunio corfforaethol.	SAUau	
6.3.5	Anogir SAUau i fabwysiadu dull sefydliad cyfan o ymdrin â DC yn y llythyr setliad grant.	CCAUC	

Camau Gweithredu		Pwy	
6.4	Partneriaethau		
6.4.2	Anogir SAUau i gynnwys ADCDF fel rhan o'r hyn y maent yn ei gynnig fel darpariaeth trydedd genhadaeth.	CCAUC	
6.4.3	Dylai agweddau o ADCDF yn y strategaethau trydedd genhadaeth gael eu croesgyfeirio i gynlluniau strategol y sefydliad neu unrhyw strategaethau perthnasol eraill sy'n cael eu hanfon at CCAUC.	CCAUC	
6.4.4	Ystyried ble y gallai SAUau helpu'r ALI i wireddu eu cynlluniau gweithredu ADCDF.	CLILC/ALLau	

Camau Gweithredu		Pwy	
6.5	Ymchwil a Monitro		
6.5.2	Comisiynu dadansoddiad pontio o'r ffrydiau cyllido cyfredol ar gyfer ymchwil sy'n berthnasol i ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.	SAUau	
6.5.3	Yn dilyn yr archwiliad cychwynnol o arferion cyfredol mewn SAUau mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, comisiynu prosiect i archwilio'r rhwystrau rhag datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn AU a sut y byddai modd eu goresgyn.	CCAUC	
6.5.4	Agor deialog gyda chyrff llywodraethu'r Ymarferiad Asesu Ymchwil (RAE) i weithio tuag at sicrhau bod yr ymchwil ryngddisgyblaethol sy'n ganolog i ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei chydabod a'i gwerthuso'n briodol mewn ymarferiadau asesu yn y dyfodol y tu hwnt i RAE 2008.	CCAUC AUC	

7. Y Sector Addysg Oedolion a Pharhaus

Datblygiadau yn y Sector Addysg Oedolion a Pharhaus

Y sector hwn fu'r arafaf i ddechrau rhoi sylw i ADCDF serch hynny un datblygiad pwysig i ADCDF fu cynnwys ADCDF yng ngwaith sgiliau sector Dysgu Gydol Oes y DU (DGO DU). Mae cyfarfodydd gydag amrywiol grwpiau o'r sector wedi dangos y ceir croeso cadarnhaol ynghyd â diddordeb mewn datblygu gwaith sector-benodol a rhagwelir, ar ôl i'r gwaith gyda dealltwriaeth gyffredin ddatblygu, y bydd pethau'n cyflymu wedyn yn y sector hwn yn ogystal.

Datblygu Dealltwriaeth Gyffredin (Cam gweithredu 7.5.1)

Dyrannwyd y gyllideb er mwyn nodi ugain o randdeiliaid ac ymarferwyr allweddol yn y maes a threfnwyd digwyddiad preswyl deuddydd i ddwyn yr unigolion hyn ynghyd i edrych ar "Ddealltwriaeth Gyffredin" i'r sector. Bydd y grŵp yn ystyried sut i'w hintegreiddio i'r maes dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) gan ei chyplysu gyda'r polisi DOG cyfredol a gydag ethos dysgu'r sector.

Datblygiadau Dysgu Gydol Oes y DU (Cam gweithredu 7.2.1)

Mae'r safonau proffesiynol trosfwaol newydd ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru wedi'u cynhyrchu ac mae ADCDF wedi'i hintegreiddio drwyddynt. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n awr ar y Fframwaith cymhwyster athrawon a'r cytundeb sgiliau sector. Bydd ADCDF yn cael ei chynrychioli ym mhob un o'r agweddau hyn.

Cymwysterau ac achrediad

Ceir sawl pwynt gweithredu penodol sy'n berthnasol i achrediad, hyfforddiant a phlannu ADCDF mewn dysgu ôl 16 yng nghynllun dysgu ADCDF.

- 7.2.5: gwaith gyda Rhwydwaith y Coleg Agored (RhCA) a chyrrff dyfarnu eraill i gynnwys elfennau o ADCDF mewn modiwlau ac unedau a fwriedir ar gyfer cyrsiau i oedolion;

- 7.2.1: Cynnwys ADCDF yn y cwrs TAR AB ac mewn tystysgrifau a hyfforddiant o fath arall i diwtoriaid addysg i oedolion;
- 5.2.4 a 3.2.2: Cynhelir trafodaethau rhyngasiantaeth i ymchwilio i sut y gellid plannu ADCDF yn fwy effeithiol yn yr holl gymwysterau ôl-16;
- 4.2.5: Ymchwilio i achrediad ar gyfer hyfforddiant ADCDF;
- 4.1.4: Cyflwyno ADCDF i'r cyrsiau gweithiwr ieuencid ar lefel AU/AB er mwyn sicrhau bod hwn yn cael ei ystyried yn faes blaenoriaethol i weithwyr ieuencid sy'n cymhwyso o'r newydd.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda DGO DU, RhCA Cymru, City and Guilds a FfCChC i edrych ar agweddau ar gyflawni'r rhain. Yn dilyn y trafodaethau hyn penderfynwyd y bydd prosiect yn cael ei gynnal i edrych ar y pwyntiau gweithredu ar draws pob sector. Bydd y prosiect yn edrych ar y posibiladau ac yn llunio cyfres gyfannol o unedau dysgu ar draws ADCDF gyfan. Bydd yn rhaid i'r unedau hyn weithio ar draws cyd-destun dysgu 14-19 a dysgu ôl-19, ar ystod o lefelau, gan gynnwys i ddechrau Lefel Mynediad - Lefel Tri. Bydd y rhain yn darparu senario credydau trosglwyddadwy i gefnogi a phlannu ADCDF mewn dysgu ôl-16 a bydd yn dylanwadu ar y datblygiadau mewn hyfforddiant i athrawon, darlithwyr a gweithwyr ieuencid yn ogystal ag ar ddatblygiad personol a phroffesiynol i unigolion.

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol i edrych yn fanwl ar y prosiect hwn ac mae gwaith pellach ar y gweill i fwrw ymlaen â hwn.

At ddibenion y bennod hon, mae'r sector hwn yn cynnwys addysg gymunedol, addysg oedolion, sgiliau sylfaenol Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) a datblygu staff.

Cyflwyno'r Cefndir

O fewn y sector hwn, mae'r ddarpariaeth ADCDF yn dameidiog. Mae rhai sefydliadau ac ychydig o diwtoriaid unigol yn gwneud mwy nag eraill ond nid oes unrhyw bolisi yn ei le i gyfeirio cynnydd neu i roi darlun cyfannol o'r hyn sydd wedi ei gynnwys o fewn ADCDF. Ond mae enghreifftiau o arferion da o fewn y sector sy'n arddangos gweithio mewn partneriaeth, mynd i'r afael â datblygu staff, rhwydweithiau effeithiol a rhai prosiectau 'disglair' unigol.

Nodwedd ychwanegol yn y sector hwn yw bod tebygrwydd rhwng egwyddorion ADCDF a dulliau addysg oedolion a dysgu parhaus. Gallai hynny gelu'r cyfraniad 'dirgel' y gallai'r sector hwn ei wneud tuag at ymgorffori ADCDF mewn gweithgareddau addysgu a dysgu. Bydd gwaith ymchwil a datblygu sydd wedi'i gynllunio yn edrych ar y potensial hwn ac yn dechrau distyllu agweddau a dulliau penodol o'r ymdriniaeth ADCDF sy'n neilltuol i'r sector hwn.

Rhaid i'r gweithredu cychwynnol yn y sector ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ar lefel strategol a hefyd drwy roi hyfforddiant i bawb sy'n cynllunio cyrsiau a phob tiwtor. Bydd camau gweithredu sydd i gael eu rhoi ar waith ar unwaith yn sicrhau bod cymorth, canllawiau ac adborth yn cael eu darparu i'r sector, ynghyd â chynlluniau i ddatblygu nod ansawdd ar gyfer ADCDF sy'n berthnasol i'r sector. Bydd modd monitro cynnydd yn erbyn y nod ansawdd hwnnw. Yn y tymor byr i ganolig, bydd y camau gweithredu hyn yn datblygu arbenigedd yn y sector. Fodd bynnag, cydnabyddir, os na wneir cynnydd digonol, y bydd angen ystyried mecanweithiau uniongyrchol er mwyn achosi newid.

7.1 Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth

Camau Gweithredu		Pwy	
7.1.1	Datblygu canllawiau atodol i sicrhau cydbwysedd rhwng datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang a chefnogi asesu ADCDF o fewn y ddarpariaeth gwaith Dysgu Cymunedol i Oedolion.	DGOS	

7.2 Addysgu a Dysgu

Mae'n gam cychwynnol ar ADCDF ar gyfer llawer o'r sector dysgu gydol oes. Ychydig yn unig o adnoddau ADCDF sy'n bodoli a bydd angen gwaith i ddarparu adnoddau priodol i'r sector.

Rhaid cymryd y cam o gorffori edefyn ADCDF mewn rhaglenni hyfforddi ar gyfer tiwtoriaid mewn addysg oedolion. Bydd rhaid i unrhyw ddarpariaeth hyfforddi fod ar gael ac yn briodol i'r staff rhan-amser ac amser llawn a geir yn y sector hwn. Un ffordd bosib o wneud hynny yn trwy bolisi hyfforddi neu ddatblygu staff y sefydliad.

Camau Gweithredu		Pwy	
7.2.1	Cynnwys ADCDF mewn cyrsiau TAR AB a thystysgrifau a hyfforddiant arall ar gyfer tiwtoriaid Addysg oedolion.	SAUau, darparwyr hyfforddiant a chymwys-terau ee City and Guilds	
7.2.2	Cynhyrchu a phrif ffrydio canllawiau arferion da a'u defnyddio fel sylfaen a model i ddarparwyr eraill.	IAYCh	

7.3 Rheolaeth Sefydliadol

Er mwyn llwyddo mewn ADCDF rhaid ei hystyried mewn modd cyfannol a'i chynnwys ym mhrif ffrwd arferion y sefydliad neu'r corff yn ei gyfanrwydd a'r ffordd y mae'n cael ei redeg, fel bod cynaliadwyedd a phersbectif byd-eang yn rhan o'r ethos cyfan. Dylid gwobrwyo cynnydd a llwyddiant mewn rheolaeth sefydliadol.

Camau Gweithredu		Pwy	
7.3.1	Dylid annog pob sefydliad (drwy gyfrwng enghreifftiau o arferion da) i ddatblygu system rheoli amgylcheddol addas (EMS) a mesurau cyfatebol mewn cysylltiad ag ymwybyddiaeth fyd-eang, a hynny ar gyfer ei holl weithrediadau er mwyn lleihau ei ddefnydd cyffredinol o adnoddau i lefelau sy'n gynaliadwy ac yn ymwybodol o safbwynt byd-eang.	DGOS/ Darparwyr hyfforddiant/ sefydliadau Dysgu Cymunedol i Oedolion	

7.4 Partneriaethau

Bu gweithio mewn partneriaeth yn gyffredin mewn dysgu gydol oes ac yn ystod y blynyddoedd diweddar y mae wedi cael ei annog gyda mentrau cyllido a meini prawf.

Mae rhai rhwydweithiau wedi eu sefydlu mewn addysg gydol oes y gellid eu defnyddio i hyrwyddo ADCDF. Mae'r rhain yn cynnwys FFORWM, Dysgu Cymunedol Cymru, NIACE Cymru, CCETs, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, YMCAs, Canolfannau Addysg Ddatblygu, cyrff anllwyodraethol eraill a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae angen gwneud gwaith i gyflwyno'r rhwydweithiau hyn i ADCDF ac i sicrhau bod agweddau craidd ADCDF yn cael eu cyflwyno drwy'r rhwydweithiau hyn wedyn i'r rheini sy'n dilyn cyrsiau dysgu gydol oes.

Camau Gweithredu		Pwy	
7.4.1	Annog rhwydweithiau i gyflwyno ADCDF i'w haelodau.	DGOS	

7.5 Ymchwil a Monitro

Bydd angen i ddarparwyr addysg oedolion a pharhaus fabwysiadu dull cyfannol tuag at ADCDF, gan ei gofleidio o fewn pob agwedd o'u gwaith - addysgeg, ymchwil a seilwaith. Mae llawer eto i'w ddysgu am arferion gwaith effeithiol. Mae'n hanfodol sefydlu llinell sylfaen o'r arferion cyfredol y gellir mesur cynnydd yn ei herbyn.

Camau Gweithredu		Pwy	
7.5.1	Diffinio'r fframwaith ar gyfer ADCDF sy'n berthnasol i'r sector hwn.	IAYCh	

7.6 Camau Atodol o fewn y Sector Addysg Oedolion a Pharhaus

Mae'r camau gweithredu hyn yn hanfodol i lwyddiant ADCDF yn y sector hwn. Maent i gyd yn gamau gweithredu y dylent gael eu cyflawni o fewn amserlen dair blynedd y cynllun gweithredu hwn. Fodd bynnag, bydd amseriad penodol y camau hyn a phryd y cânt eu cwblhau yn amrywio, yn dibynnu ar y gwaith adolygu polisïau neu ddogfennau sydd wedi ei restru ac a fydd yn digwydd yn naturiol yn ystod y cyfnod hwn, y cyfleoedd sy'n codi'n lleol neu ddatblygiadau o fewn pwyntiau gweithredu eraill y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

Awgrymir corff arwain yn gysylltiedig â'r camau gweithredu a restrwyd. Nid ydym yn awgrymu mai hwn fydd yr unig gorff fydd yn ymwneud â chyflawni'r camau gweithredu, ond mai'r corff hwn fydd yn gyfrifol am yrru'r newid a nodir ymlaen drwy ddenu pob sefydliad, menter ac unigolyn perthnasol i gymryd rhan fel partneriaid.

Camau Gweithredu		Pwy	
7.1	Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad		
7.1.2	Ymgorffori ADCDF yn y gwaith strategol o gynllunio addysg oedolion gyda'r nod o'i gwreiddio mewn cyrsiau addysg oedolion, yn cynnwys DPP.	ALI/SABau/ Darparwyr addysg oedolion, Cyrff achredu ac arolygu	
7.1.3	Ymgorffori ADCDF yn y meini prawf cyllido a'r canllawiau ar gyfer cyllid cymunedol e.e. cymunedau yn gyntaf.	Cyrff cyllido perthnasol, ESF, IAYCh	

Camau Gweithredu		Pwy	
7.2	Addysgu a Dysgu		
7.2.3	Datblygu adnoddau ar gyfer ADCDF mewn gwahanol feysydd cwricwlaidd sy'n canolbwyntio'n benodol ar addysg oedolion.	DGOS	
7.2.4	ADCDF i gael ei chynnwys mewn hyfforddiant i Weithwyr Datblygu Cymunedol, yn cynnwys swyddogion cymunedau yn gyntaf.	Sefydliad Datblygu Cymunedol (CDF)	
7.2.5	Gweithio gyda OCN a chyrff dyfarnu eraill i ymgorffori elfennau o ADCDF mewn modiwlau ac unedau a anelir at gyrsiau i oedolion.	OCN/DGOS	
7.2.6	Cynhyrchu a phrif ffrydio canllawiau arferion da a'u defnyddio fel sylfaen a model i ddarparwyr eraill.	IAYCh	

Camau Gweithredu		Pwy	
7.3	Rheolaeth Sefydliadol		
7.3.2	Bod dyraniadau presennol yn cael eu mapio yn erbyn y nod ansawdd i ddangos ble maent yn cynnal ac yn gwobrwyo rhagoriaeth. Amlygu unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth neu'r dyfarniadau a datblygu cynlluniau i lenwi'r bylchau hyn.	IAYCh	

Camau Gweithredu		Pwy	
7.4	Partneriaethau		
7.4.2	Mynd ati i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a pherthnasedd ADCDF ymysg undebau a busnesau perthnasol.	DGOS	
7.4.3	Agor trafodaethau gyda Dysgu Cymunedol Cymru am ymgorffori ADCDF yn ei waith.	AAllau	

Camau Gweithredu		Pwy	
7.5	Ymchwil a Monitro		
7.5.2	Mae'r Cynulliad yn rhoi dyletswydd ar Estyn i gynnal arolwg o ADCDF mewn addysg oedolion ac i gynhyrchu archwiliad llinell sylfaen o ADCDF ar draws y sector ar hyn o bryd.	PID	
7.5.3	Cynhyrchu dadansoddiad pontio yn amlygu meysydd i'w datblygu rhwng y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd a'r nod ansawdd a ddyfeisir.	IAYCh	

Rhestr Termâu

AALI	Awdurdod Addysg Lleol
AB	Addysg Bellach
ADCDF	Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
ADEW	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
ANG	Athro Newydd Gymhwyso
ALI	Awdurdod Lleol
ASA	Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
AU	Addysg Uwch
AUC	Addysg Uwch Cymru
BME	Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
CACC	Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CCEA	Cyngor Gogledd Iwerddon ar gyfer y Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu
CCET	Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant
CDC	Cynllun Datblygiad Cynaliadwy
CDF	Sefydliad Datblygu Cymunedol
CDIO	Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid ac Oedolion
CIC	Cyngor Ieuenctid Cymru
CPABC	Consortiwm Pwrcasu Addysg Bellach Cymru
DC	Datblygiad Cynaliadwy
DGOS	Y Grŵp Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
DPC	Datblygiad Proffesiynol Cynnar
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
DDSG	Dysgu a Datblygu Seiliedig yn y Gymuned
EES	Galluogi Cefnogaeth Effeithiol (menter gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol)
ELWa	Dysgu ac Addysgu Cymru
EMAS	Cynllun Eco-reoli ac Archwilio'r UE
ESF	Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd
ESP	Cynlluniau Strategol Addysg

Estyn	Arolygiaeth ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
HCA	Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon
HEA	Yr Academi Addysg Uwch
HEFCE	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr
HESDA	Asiantaeth Datblygu Staff Addysg Uwch
IAYCh	Yr Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant
IPG	Yr Is-adran Perfformiad a Gwella
IRHY	Yr Is-adran Rheolaeth Ysgolion
ISO	Sefydliad Safonau Rhyngwladol
ISP	Yr Is-adran Strategaeth Plant
IY	Yr Is-adran Ymarferwyr
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
MDG	Amcanion Datblygu'r Mileniwm
PPI	Partneriaeth Pobl Ifanc
RAE	Ymarferiad Asesu Ymchwil
SAB	Sefydliad Addysg Bellach
SAC	Statws Athro Cymwysedig
SAU	Sefydliad Addysg Uwch
TAR	Tystysgrif Addysg i Raddedigion
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
UNESCO	Mudiad Addysg, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig
WSSD	Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy
WYFSD	Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy